

TAG UG/SAFON UWCH



TAG UG/SAFON UWCH CBAC ASTUDIO'R CYFRYNGAU

CYMERADWYWDYD GAN CYMWYSTERAU CYMRU

MANYLEB

Addysgu o 2017

I'w ddyfarnu o 2018 (UG)

I'w ddyfarnu o 2019 (Safon Uwch)

Fersiwn 5 Ebrill 2024



Nid yw'r cymhwyster hwn a reoleiddir gan Cymwysterau Cymru ar gael i ganolfannau Lloegr.

CRYNODEB O NEWIDIADAU

Fersiwn	Disgrifiad	Rhif y dudalen
2	Newid i ddyddiad Cyfres 1, Pennod 1 <i>The Bridge</i> i 2012.	31
	Ychwanegu brawddeg ar ddiwedd y paragraff 'ymchwil ymchwiliol' i egluro nad oes hawl gan ddysgwyr seilio'r ymchwil ymchwiliol ar unrhyw rai o'r cynhyrchion gosod a astudiwyd ar gyfer Uned 3.	43
3	Rhaid llwytho gwaith cynhyrchu i fyny fel e-bortffolio.	52
	Newidiwyd yr adran 'Cofrestru' i egluro rheolau ailsefyll a throsglwyddo marciau'r Asesu Di-arholiad.	53
4	Uned 1, Grŵp 3: newyddion radio ar-lein. Gan nad yw'r rhaglen <i>Good Evening Wales</i> (BBC Radio Wales) yn cael ei ddarparu erbyn hyn, cafodd ei ddisodli gan sioe <i>Gareth Lewis</i> (BBC Radio Wales) Gall ymgeiswyr ddewis ateb cwestiynau gan ddefnyddio naill ai <i>Good Evening Wales</i> neu sioe <i>Gareth Lewis</i> yn haf 2021. O haf 2022 ni ellir defnyddio <i>Good Evening Wales</i> .	17
	Newidiwyd y briffiau gosod canlynol i'w hasesu o haf 2022. (Mae'r briffiau gosod gwreiddiol ar gael o hyd i'w hasesu yn haf 2021.)	
	Uned 2, Briff 1: opsiwn 2 (print/ar-lein)	25
	Uned 2, Briff 3: Ffilm, opsiwn 1 (clyweledol) ac opsiwn 2 (print/ar-lein)	28
5	Uned 4, Briff 2, Cylchgronau, opsiwn 1 (unigol), opsiwn (unigol) ac opsiwn B (hysbyseb)	49 a 50
	Uned 1, Grŵp 3: newyddion radio ar-lein. Newidiwyd yr adran hon i ddangos bod sioe <i>Gareth Lewis</i> (BBC Radio Wales) bellach yn cael ei galw'n <i>Radio Wales Drive</i> (BBC Radio Wales)	17



TAG UG ac UWCH CBAC mewn ASTUDIO'R CYFRYNGAU

I'w addysgu o 2017

UG i'w ddyfarnu o 2018

Uwch i'w ddyfarnu o 2019

Mae'r fanyleb hon yn bodloni'r Meini Prawf Cymeradwyo Cymwysterau TAG UG ac Uwch sy'n pennu gofynion yr holl fanylebau TAG newydd neu ddiwygiedig a ddatblygwyd i'w haddysgu yng Nghymru o fis Medi 2017.

	Tudalen
Crynodeb o'r Asesu	2
1. Rhagarweiniad	9
1.1 Nodau ac amcanion	9
1.2 Dysgu blaenorol a dilyniant	10
1.3 Cydraddoldeb a mynediad teg	11
1.4 Bagloriaeth Cymru	11
1.5 Persbectif Cymreig	11
2. Cynnwys y Pwnc	12
2.1 Unedau UG	16
2.2 Unedau U2	33
3. Asesu	53
3.1 Amcanion asesu a phwysoli	53
3.2 Trefniadau ar gyfer asesu di-arholiad	54
4. Gwybodaeth dechnegol	56
4.1 Cofrestru	56
4.2 Graddio, dyfarnu ac adrodd yn ôl	57
Atodiad A: Crynodeb o Safbwyntiau Beirniadol i'w hastudio	58
Atodiad B: Uned 2: Creu Cynhyrchiad y Cyfryngau grid asesu a chanllawiau marcio	61
Atodiad C: Uned 4: Creu Cynhyrchiad ar gyfer Gwahanol Gyfryngau grid asesu a chanllawiau marcio	72

TAG UG ac UWCH ASTUDIO'R CYFRYNGAU (Cymru) CRYNODEB O'R ASESU

Mae'r fanyleb hon wedi'i rhannu'n gyfanswm o 4 uned, 2 uned UG a 2 uned U2. Mae'r pwysoli a nodir isod yn cael ei fynegi yn nhermau'r cymhwyster Safon Uwch llawn.

UG (2 Uned)

UG Uned 1: Ymchwilio i'r Cyfryngau
Arholiad ysgrifenedig: 2 awr 30 munud
24% o'r cymhwyster

100 marc

Mae'r arholiad yn cynnwys tair adran.

Adran A: Gwerthu Delweddau – Hysbysebu a Fideo Cerddoriaeth

Mae'r adran hon yn asesu gwybodaeth a dealltwriaeth o **iaith y cyfryngau, cynrychioliad a chynulleidfaoedd mewn perthynas â hysbysebu neu fideo cerddoriaeth.**

Mae un cwestiwn yn seiliedig ar **ddeunydd adnoddau** print neu glyweledol nad yw wedi'i weld o'r blaen.

Adran B: Newyddion yn yr Oes Ar-lein

Mae'r adran hon yn asesu gwybodaeth a dealltwriaeth am **iaith y cyfryngau, cynrychioliad, diwydiannau'r cyfryngau a chynulleidfaoedd.**

Mae un cwestiwn dwy ran sy'n gofyn am gyfeirio at y cynhyrchion newyddion gosod a astudiwyd.

Adran C: Diwydiannau Ffilm – o Gymru i Hollywood

Mae'r adran hon yn asesu gwybodaeth a dealltwriaeth am **iaith y cyfryngau, diwydiannau'r cyfryngau a chynulleidfaoedd.**

Mae **un** cwestiwn dwy ran sy'n gofyn am gyfeirio at y ffilmiau gosod a astudiwyd.

UG Uned 2: Creu Cynhyrchiad y Cyfryngau

Asesu di-arholiad
16% o'r cymhwyster

80 marc

- Cynhyrchiad y cyfryngau, gan gynnwys ymchwil a chynllunio **unigol**, a grëwyd mewn ymateb i **ddewis o friffiau a osodir gan CBAC**, a chymhwyso gwybodaeth a dealltwriaeth o gysyniadau allweddol
- Dadansoddiad myfyriol **unigol** o'r cynhyrchiad.

Safon Uwch (yr uchod yn ogystal â 2 uned bellach)

U2 Uned 3: Y Cyfryngau yn yr Oes Fyd-eang

Arholiad ysgrifenedig: 2 awr 30 munud

36% o'r cymhwyster

90 marc

Mae'r uned hon yn asesu gwybodaeth a dealltwriaeth am **iaith y cyfryngau, cynrychioliad, diwydiannau'r cyfryngau a chynulleidfaoedd**. Mae'r arholiad yn cynnwys tair adran. Bydd **un** adran hefyd yn asesu gwybodaeth a dealltwriaeth am **gyd-destunau'r cyfryngau** a bydd **un** adran yn asesu gwybodaeth a dealltwriaeth am **safbwyntiau beirniadol**.

Adran A: Teledu yn yr Oes Fyd-eang

Mae **un** cwestiwn o ddewis o ddau yn seiliedig ar y rhaglenni teledu gosod a astudiwyd.

Adran B: Cylchgronau – Newid Cynrychioliadau

Mae **un** cwestiwn o ddewis o ddau yn seiliedig ar y cylchgronau gosod a astudiwyd.

Adran C: Y Cyfryngau yn yr Oes Ddigidol – Gemau Fideo

Mae **un** cwestiwn o ddewis o ddau yn seiliedig ar y gemau fideo gosod a astudiwyd.

U2 Uned 4: Creu Cynhyrchiad ar gyfer Gwahanol Gyfryngau

Asesiad di-arholiad

24% o'r cymhwyster

80 marc

- Cynhyrchiad ar gyfer gwahanol gyfryngau, gan gynnwys ymchwil a chynllunio **unigol**, a grëwyd mewn ymateb i **ddewis o friffiau a osodir gan CBAC** a chymhwyso gwybodaeth a dealltwriaeth o gysyniadau allweddol a chydgyfeirio digidol.
- Dadansoddiad beirniadol **unigol** o'r cynhyrchiad.

Manyleb mewn unedau yw hon, sy'n caniatáu rhywfaint o asesu mewn camau. Bydd cyfleoedd asesu ar gael yn ystod cyfnod asesu'r haf bob blwyddyn, tan ddiwedd oes y fanyleb hon.

Bydd Uned 1 ac Uned 2 ar gael yn 2018 (a phob blwyddyn wedi hynny) a dyfernir y cymhwyster UG am y tro cyntaf yn haf 2018.

Bydd Uned 3 ac Uned 4 ar gael yn 2019 (a phob blwyddyn wedi hynny) a dyfernir y cymhwyster Safon Uwch am y tro cyntaf yn haf 2019.

Rhifau Cymeradwyo'r Cymhwyster ar QiW:**TAG UG: C00/1186/3****TAG Uwch: C00/1165/4**

Trosolwg o'r Fanyleb – UG**Uned 1: Ymchwilio i'r Cyfryngau (uned arholiad)**

Adran	Ffuriau a astudir yn fanwl	Ffuriau eraill a astudir	Cynhyrchion y cyfryngau a astudir	Cysyniadau allweddol a astudir
Adran A: Gwerthu Delweddau – Hysbysebu a Fideo Cerddoriaeth	- Hysbysebu clyweledol a hysbysebu print - Fideo cerddoriaeth (marchnata)	Y cyfryngau ar-lein	Amrywiaeth o enghreifftiau priodol i oedran a ddewiswyd gan yr athro yn unol â'r meini prawf a nodwyd yn y fanyleb yn rhoi sylw i'r canlynol: - hysbysebu print, ar-lein a hysbysebu clyweledol - gwybodaeth elusennol neu gyhoeddus a hysbysebu masnachol ar gyfer nwyddau traul - enghreifftiau hanesyddol o hysbysebu print a chlyweledol a gynhyrchwyd cyn 1980 - fideo cerddoriaeth, gan gynnwys enghreifftiau wedi'u cynhyrchu cyn y flwyddyn 2000 - cynrychioliadau gwrthgyferbyniol, defnydd o iaith y cyfryngau a chynulleidfaoedd targed	- Iaith y Cyfryngau - Cynrychioliad - Cynulleidfaoedd
Adran B: Newyddion yn yr Oes Ar-lein	- Papurau Newydd - Y cyfryngau ar-lein a'r cyfryngau cymdeithasol	Radio	- O leiaf un papur newydd print a'i fersiwn ar-lein o restr o opsiynau a osodwyd gan CBAC - O leiaf un gwefan newyddion o restr o opsiynau a osodwyd gan CBAC - O leiaf un ffynhonnell newyddion radio ar-lein o restr o opsiynau a osodwyd gan CBAC - Digwyddiad newyddion fel yr adroddwyd arno ar amrywiaeth o wefannau cyfryngau cymdeithasol i'w ddewis gan yr athro	- Iaith y Cyfryngau - Cynrychioliad - Diwydiannau'r cyfryngau - Cynulleidfaoedd
Adran C: Diwydiannau Ffilm – o Gymru i Hollywood	Ffilm	Y cyfryngau ar-lein	Dwy ffilm gyflawn Un ffilm Gymreig o restr o opsiynau a osodwyd gan CBAC Un ffilm Hollywood a ddewiswyd gan yr athro o restr o opsiynau a osodwyd gan CBAC	- Iaith y Cyfryngau - Diwydiannau'r cyfryngau - Cynulleidfaoedd

Uned 2: Creu Cynhyrchiad y Cyfryngau (asesiad di-arholiad)

Ffurf y cyfryngau: opsiynau sydd ar gael	Elfennau i'w cwblhau	Cyfryngau cynhyrchu: opsiynau sydd ar gael
Fideo cerddoriaeth, hysbysebu a marchnata	Ymchwilio, cynllunio, cynhyrchu a dadansoddi myfyriol	Opsiynau cyfryngau print neu clyweledol
Newyddion Ar-lein	Ymchwilio, cynllunio, cynhyrchu a dadansoddi myfyriol	Dau opsiwn y cyfryngau ar-lein
Ffilm	Ymchwilio, cynllunio, cynhyrchu a dadansoddi myfyriol	Opsiynau cyfryngau print neu clyweledol

Trosolwg o'r Fanyleb: U2**Uned 3: Y Cyfryngau yn yr Oes Fyd-eang (uned arholiad)**

Adran	Ffuriau a astudir yn fanwl	Ffuriau eraill a astudir	Cynhyrchion y cyfryngau a astudir	Cysyniadau allweddol a meysydd a astudiwyd
Adran A: Teledu yn yr Oes Fyd-eang	Teledu	Y cyfryngau ar-lein	Tair rhaglen deledu gyflawn Un pennod o ddrama drosedd gyflawn a wnaed yng Nghymru a osodwyd gan CBAC Un pennod o ddrama drosedd gyflawn nad yw yn yr iaith Saesneg a ddewiswyd o restr o opsiynau a osodwyd gan CBAC Un pennod o ddrama drosedd gyflawn a gynhyrchwyd yn yr 1990au a ddewiswyd o restr o opsiynau a osodwyd gan CBAC	- Iaith y Cyfryngau - Cynrychioliad - Diwydiannau'r cyfryngau - Cynulleidfaoedd - Cyd-destunau'r Cyfryngau
Adran B: Cylchgronau – Newid Cynrychioliadau	- Cylchgronau - Y cyfryngau ar-lein		Tri cylchgrawn Un cylchgrawn hanesyddol a ddewiswyd o restr o opsiynau a osodwyd gan CBAC - Un cylchgrawn prif ffrwd cyfoes a ddewiswyd o restr o opsiynau a osodwyd gan CBAC - Un cylchgrawn nad yw yn y prif ffrwyd a ddewiswyd o restr o opsiynau a osodwyd gan CBAC	- Iaith y Cyfryngau - Cynrychioliad - Diwydiannau'r cyfryngau - Cynulleidfaoedd - Cyd-destunau'r Cyfryngau
Adran C: Y Cyfryngau yn yr Oes Ddigidol – Gemau Fideo	Gemau Fideo	Y cyfryngau ar-lein	Tair gêm fideo wrthgyferbyniol a ddewiswyd o restr o opsiynau a osodwyd gan CBAC	- Iaith y Cyfryngau - Cynrychioliad - Diwydiannau'r cyfryngau - Cynulleidfaoedd - Cyd-destunau'r Cyfryngau

Uned 4: Creu Cynhyrchiad ar gyfer Gwahanol Gyfryngau (asesiad di-arholiad)

Ffurf y cyfryngau: opsiynau sydd ar gael	Elfennau i'w cwblhau	Cyfryngau cynhyrchu: opsiynau sydd ar gael
Teledu	Ymchwil a datblygiad ymchwiliol, cynhyrchu ar gyfer gwahanol gyfryngau a dadansoddiad beirniadol	Opsiynau cyfryngau clyweledol a naill ai'r cyfryngau ar-lein neu'r cyfryngau print
Cylchgronau	Ymchwil a datblygiad ymchwiliol, cynhyrchu ar gyfer gwahanol gyfryngau a dadansoddiad beirniadol	Opsiynau cyfryngau print a naill ai'r cyfryngau ar-lein neu'r cyfryngau clyweledol

TAG UG A SAFON UWCH ASTUDIO'R CYFRYNGAU

1 RHAGARWEINIAD

1.1 Nodau ac amcanion

Mae'r cyfryngau yn chwarae rhan ganolog mewn diwylliant, cymdeithas a gwleidyddiaeth gyfoes. Maent yn llywio ein safbwyntiau o'r byd drwy gynrychioliadau, syniadau a safbwyntiau y maent yn eu cynnig. Mae gan y cyfryngau berthnasedd a phwysigrwydd gwirioneddol yn ein bywydau heddiw, gan roi ffyrdd i ni gyfathrebu, gyda mathau o fynegiant diwylliannol a'r gallu i gymryd rhan mewn agweddau allweddol ar gymdeithas. Ni ellir cwestiynu pwysigrwydd economaidd y cyfryngau chwaith. Mae diwydiannau'r cyfryngau yn cyflogi nifer iawn o bobl ar draws y byd ac yn cynhyrchu elw byd-eang sylweddol. Mae natur fyd-eang y cyfryngau cyfoes, datblygiadau technolegol parhau a mwy o gyfleoedd i ryngweithio gyda'r cyfryngau yn awgrymu mai dim ond cynyddu y gallai ei chanologrwydd mewn bywyd cyfoes ei wneud.

Mae'r fanyleb CBAC hon yn rhoi cyfle i ddysgwyr ddatblygu dealltwriaeth fanwl a thrylwyr o'r materion allweddol hyn, gan ddefnyddio cysyniadau allweddol ac amrywiaeth o safbwyntiau beirniadol i gefnogi archwilio a myfyrio beirniadol, dadansoddi a dadlau. Mae astudio amrywiaeth eang o gynhyrchion cyfoethog ac ysgogol y cyfryngau wrth wraidd y fanyleb, gan gynnig cyfleoedd i ddadansoddi'n fanwl sut mae'r cyfryngau yn cyfleu ystyron mewn amryw o ffyrdd. Bydd dysgwyr yn gweithio o'r cynnyrch allan i ddadlau cwestiynau beirniadol allweddol sy'n ymwneud â pherthnasedd ac effaith cymdeithasol, diwylliannol ac economaidd y cyfryngau. Drwy astudio cynhyrchion y cyfryngau yn gyfannol mewn perthynas â'r holl gysyniadau allweddol, bydd dysgwyr yn ymgysylltu â pherthnasau deinamig rhwng cynhyrchion y cyfryngau, diwydiannau'r cyfryngau a chynulleidfaoedd. Bydd dysgwyr hefyd yn ystyried holl ffurfiau poblogaidd y cyfryngau ochr yn ochr â ffurfiau mwy cyfoes, gan ddatblygu ymwybyddiaeth o'r berthynas rhwng ffurfiau'r cyfryngau a llwyfannau ar-lein.

Er bod y prif bwyslais yn y fanyleb hon ar y cyfryngau cyfoes, ar U2 bydd dysgwyr yn archwilio sut mae'r cynhyrchion yn berthnasol i'w cyd-destunau hanesyddol ehangach. Bydd dysgwyr hefyd yn ehangu eu profiad o'r cyfryngau drwy astudio cynhyrchion y byddant yn llai cyfarwydd â nhw, gan gynnwys y rhai a gynhyrchwyd gan grŵp lleiafrifol, neu ar gyfer grŵp lleiafrifol, cynhyrchion nad ydynt yn y brif ffrwd, a chynhyrchion nad ydynt yn Saesneg eu hiaith. Bwriad y fanyleb hon yw datblygu gwybodaeth a dealltwriaeth am natur traws-genedlaethol y cyfryngau, gan ystyried effaith cyd-destunau cenedlaethol gwahanol ar gynrychioliadau yng nghynhyrchion y cyfryngau, cyrhaeddiad byd-eang diwydiannau'r cyfryngau, a thargedu cynulleidfaoedd ar raddfa genedlaethol a byd-eang.

Mae'r cyfryngau yng Nghymru yn chwarae rôl hanfodol yn economaidd ac yn ddiwylliannol. Nod y fanyleb hon yw dathlu talent Gymreig a chynyddu llwyddiant wrth gynhyrchu ffilm a chynhyrchu teledu, codi ymwybyddiaeth dysgwyr o'r prif heriau sy'n wynebu cynhyrchu'r cyfryngau yng Nghymru, a rhoi cyfleoedd i archwilio materion cymhleth cynrychioliad hunaniaeth ddiwylliannol Gymreig.

Mae dewis a hyblygrwydd yn rhan hanfodol o'r fanyleb, gan alluogi athrawon i ddewis y cynhyrchion mwyaf priodol, perthnasol a difyr i'w dysgwyr astudio yn y ddwy uned arholiad.

Mae'r fanyleb hon hefyd yn cydnabod y berthynas sylfaenol rhwng dealltwriaeth ddamcaniaethol a gwaith ymarferol, gan roi cyfleoedd cyffrous i ddysgwyr ddatblygu sgiliau cynhyrchu yn y cyfryngau mewn ffyrdd gwahanol, defnyddio eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth o fframwaith damcaniaethol i ffurfiau'r cyfryngau a chynhyrchion, a dod yn grewyr ystyr eu hunain. Rhoddir dewis i ddysgwyr o friffiau a ffurfiau i weithio ynddynt, gan eu galluogi i archwilio a mynd ar drywydd eu diddordebau cyfryngau eu hunain.

Mae'r fanyleb hon yn galluogi i ddysgwyr wneud y canlynol:

- deall perthnasedd ac effaith y cyfryngau a'i rôl yn eu bywyd bob dydd
- dangos gwybodaeth a dealltwriaeth o natur fyd-eang y cyfryngau
- datblygu sgiliau ymholi, dealltwriaeth feirniadol a dadansoddi'r cyfryngau drwy ymgysylltu â chynnyrch a chysyniadau'r cyfryngau a thrwy ddefnyddio sgiliau ymarferol cynhyrchu'n greadigol
- archwilio a deall cyd-destunau cyfryngau perthnasol
- datblygu dealltwriaeth o'r berthynas newidiol a ddeinamig rhwng ffurfiau'r cyfryngau, diwydiannau'r cyfryngau a chynulleidfaoedd
- datblygu eu hannibyniaeth eu hunain wrth ymchwilio a gwneud gwaith ymarferol a ffurfio eu safbwyntiau a'u dehongliadau eu hunain
- dadansoddi a defnyddio safbwyntiau beirniadol i gynhyrchion y cyfryngau
- gwerthuso eu gwaith ymarferol eu hunain.

Mae'r fanyleb hon hefyd yn rhoi cyfle i ddysgwyr gynhyrchu ymatebion ysgrifenedig estynedig ac arddangos ansawdd eu cyfathrebu ysgrifenedig, gan gynnwys defnydd priodol o atalnodi a gramadeg.

1.2 Dysgu blaenorol a dilyniant

Y ganolfan sydd i benderfynu ar unrhyw ofynion sy'n cael eu pennu o ran cael mynediad i gwrs sy'n dilyn y fanyleb hon. Mae'n rhesymol derbyn y bydd llawer o'r dysgwyr wedi ennill cymwysterau sy'n cyfateb i Lefel 2 CA4. Mae'r fanyleb hon yn adeiladu ar y wybodaeth, y dealltwriaeth a'r sgiliau a feithrinwyd yn ystod TGAU, yn enwedig sgiliau dadansoddol a llythrennedd.

Bydd rhai dysgwyr eisoes wedi caffael gwybodaeth, dealltwriaeth a sgiliau o astudio Astudio'r Cyfryngau ar gyfer TGAU.

Mae'r fanyleb hon yn gweithredu fel sylfaen addas ar gyfer astudio Astudio'r Cyfryngau neu faes perthynol drwy ddilyn amrywiaeth o gysiau addysg uwch, symud ymlaen i'r lefel nesaf o gymwysterau galwedigaethol neu gyflogaeth. Yn ogystal, mae'r fanyleb hon yn gwrs astudio sy'n gydlynol, yn foddhaol ac yn werth chweil i'r dysgwyr hynny nad ydynt yn symud ymlaen i astudio ymhellach yn y pwnc hwn.

Nid yw'r fanyleb hon yn benodol i oedran ac felly mae'n darparu cyfleoedd i ddysgwyr barhau i ddysgu gydol oes.

1.3 Cydraddoldeb a mynediad teg

Gall unrhyw ddysgwr ddilyn y fanyleb hon, beth bynnag fo'i ryw a'i gefndir ethnig, crefyddol neu ddiwylliannol. Lluniwyd y fanyleb i osgoi, lle bo'n bosibl, nodweddion a allai, heb gyfiawnhad, ei gwneud yn fwy anodd i ddysgwr lwyddo oherwydd bod ganddynt nodwedd benodol wedi ei hamddiffyn.

O dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010, y nodweddion penodol wedi'u hamddiffyn yw oedran, anabledd, ailbennu rhywedd, beichiogrwydd a mamolaeth, hil, crefydd neu gred, rhyw neu gyfeiriadedd rhywiol.

Mae'r fanyleb hon wedi'i thrafod â grwpiau sy'n cynrychioli diddordebau ystod amrywiol o ddysgwyr, ac adolygir y fanyleb yn gyson.

Cynghorir canolfannau i gynnig cefnogaeth yn y dosbarth i ddysgwyr â dyslecsia na allant o bosibl brosesu is-deitlau yn Uned 1 Adran C (Diwydiannau Ffilm - Cymru i Hollywood) neu Uned 3 Adran A (Teledu yn yr Oes Fyd-eang).

Gwneir addasiadau rhesymol ar gyfer dysgwyr penodol fel bod yr asesiadau o fewn eu cyrraedd (e.e. caniateir i ymgeiswyr ddefnyddio Dehonglydd Iaith Arwyddion, gan ddefnyddio Iaith Arwyddion Prydain). Mae gwybodaeth am addasiadau rhesymol i'w chael yn nogfen y Cyd-gyngor Cymwysterau (CGC): *Trefniadau Mynediad ac Addasiadau Rhesymol: Cymwysterau Cyffredinol a Galwedigaethol*.

Mae'r ddogfen hon ar gael ar wefan y CGC (www.jcq.org.uk). Byddwn yn dilyn egwyddorion y ddogfen hon ac felly, o ganlyniad i ddarpariaeth addasiadau rhesymol, prin iawn fydd nifer y dysgwyr fydd wedi'u hatal yn llwyr rhag unrhyw ran o'r asesu.

1.4 Bagloriaeth Cymru

Dylai dysgwyr, wrth ddilyn y fanyleb hon, gael cyfleoedd, lle bo'n briodol, i ddatblygu'r sgiliau sy'n cael eu hasesu drwy'r Dystysgrif Her Sgiliau sy'n rhan o Fagloriaeth Cymru:

- Llythrennedd
- Rhifedd
- Llythrennedd Digidol
- Meddwl yn Feirniadol a Datrys Problemau
- Cynllunio a Threfnu
- Creadigedd ac Arloesi
- Effeithiolrwydd Personol.

1.5 Persbectif Cymreig

Rhaid i ddysgwyr, wrth ddilyn y fanyleb hon, ystyried persbectif Cymreig os bydd cyfle i wneud hynny'n deillio'n naturiol o'r deunydd pwnc ac os byddai gwneud hynny'n cyfoethogi dealltwriaeth dysgwyr o'r byd o'u cwrpas fel dinasyddion o Gymru yn ogystal â'r DU, Ewrop a'r byd.

2 CYNNWYS Y PWNC

Trosolwg

Dyluniwyd y fanyleb Astudio'r Cyfryngau TAG UG CBAC hon i roi dull astudio sy'n gydlynol, yn integredig ac yn fanwl ar gyfer y cyfryngau, gan alluogi'r dysgwyr i ddatblygu a defnyddio eu dealltwriaeth o'r cyfryngau drwy ddadansoddi a chreu cynhyrchion y cyfryngau mewn perthynas â fframwaith cysyniadol cynhwysfawr sy'n sail i'r fanyleb ac amrywiaeth eang o safbwyntiau beirniadol. Anogir dysgwyr i wneud cysylltiadau: rhwng gwahanol ffurfiau a chynhyrchion y cyfryngau, rhwng cynhyrchion y cyfryngau a'u cyd-destunau, a rhwng cysyniadau a gwaith ymarferol. Felly bydd dysgwyr yn datblygu'r gallu i fyfyrion gritigol ar gynhyrchion y cyfryngau sy'n bodoli eisoes ac ar eu gwaith ymarferol eu hunain.

Drwy'r astudiaeth hon, mae dysgwyr yn meithrin dealltwriaeth wedi'i datblygu o'r dulliau cysyniadol allweddol, safbwyntiau beirniadol, materion a dadleuon yn y pwnc, gan eu galluogi i gwestiynu ac archwilio agweddau ar y cyfryngau sy'n ymddangos yn gyfarwydd a syml iddynt o'u profiad cyfredol yn gritigol. Gan adeiladu ar hyn, bydd dysgwyr hefyd yn ehangu eu hymgyssylltiad â'r cyfryngau i'r hyn sydd yn llai cyfarwydd, gan gynnwys cynhyrchion o gyfnodau hanesyddol a lleoliadau byd-eang gwahanol, a'r rhai hynny sydd wedi'u cynhyrchu y tu allan i'r brif ffrwd fasnachol ac wedi'u targedu at gynulleidfaoedd nad ydynt yn brif ffrwd, gan gynnig cyfleoedd cyfoethog ac ysgogol i ddadansoddi a dehongli. Mae astudio cyd-destunau cymdeithasol, diwylliannol, hanesyddol a chyd-destunau'r diwydiant yn gwella ac yn dyfnhau dealltwriaeth dysgwyr o'r cyfryngau ymhellach, wrth iddynt archwilio dylanwadau allweddol ar y cynhyrchion a astudiwyd.

Mae'r fanyleb yn cydnabod natur aml-lwyfan ar draws gwahanol gyfryngau'r cyfryngu cyfoes, a chanologrwydd llwyfannau ar-lein a llwyfannau cyfryngau cymdeithasol wrth ddosbarthu'r cyfryngau, manteisio arno a chymryd rhan ynddo. Mae ffurfiau penodol wedi'u hamlygu i'w hastudio'n fanwl, ond mae hyn yng nghyd-destun eu perthynas i ffurfiau a llwyfannau eraill y cyfryngau, gan gydnabod eu hesmwythder a'r ffordd y maent yn ymateb i ddatblygiadau cyfoes, newydd yn y tirlun digidol.

Mae'r fanyleb hon yn cynnwys dimensiwn Cymreig, gan alluogi dysgwyr i astudio ffilmiau a wnaed yng Nghymru ac, ar U2, i archwilio'r materion allweddol sy'n ymwneud â chynrychioliadau o Gymru a hunaniaeth Gymraeg, gan eu cysylltu â ffactorau cymdeithasol, economaidd a ffactorau'r diwydiant. Mae natur fyd-eang y cyfryngau cyfoes hefyd yn rhan bwysig o'r fanyleb hon. Bydd dysgwyr yn ystyried sut mae diwydiannau'r cyfryngau yn gweithredu'n fyd-eang ac yn targedu cynulleidfaoedd byd-eang, ac ar U2 byddant yn archwilio cynhyrchion y cyfryngau a wnaed y tu allan i'r UD a'r DU; gan gynnwys teledu nad yw'n Saesneg ei iaith.

Mae dysgu am y cyfryngau yn cynnwys archwilio i gynhyrchion y cyfryngau, a gwneud cynhyrchion y cyfryngau ac mae'r ddau weithgaredd yn berthnasol yn sylfaenol yn y fanyleb hon. Mae dysgwyr yn creu cynhyrchiad y cyfryngau ar gyfer cynulleidfa arfaethedig, gan ddefnyddio eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth o iaith y cyfryngau, cynrychioliad, cynulleidfa a diwydiant mewn ymateb i ddewis o friffiau a osodwyd gan CBAC. Mae'r cyfle i ddewis ffurfiau, a'r angen i weithio mewn mwy nag un ffurf ar U2, yn caniatáu i ddysgwyr fynd ar drywydd eu diddordebau cyfryngau eu hunain a datblygu eu sgiliau ymarferol yn yr uned hon.

Ffuriau'r Cyfryngau a Chynhyrchion

Bydd dysgwyr yn astudio cynhyrchion y cyfryngau o amrywiaeth o ffurfiau'r cyfryngau - hysbysebu a marchnata, ffilm, cylchgronau, fideo cerddoriaeth, papurau newydd, radio, teledu, gemau fideo a chyfryngau ar-lein - gan gynnwys astudiaeth fanwl o ffurfiau penodol ar UG a U2. Ar y cyd, mae'r cynhyrchion a astudir yn:

- meddu ar arwyddocâd hanesyddol, diwylliannol a chymdeithasol
- cwmpasu cyfnodau hanesyddol a chynulleidfaoedd arfaethedig gwahanol, gan gynnwys cynulleidfa nad ydynt yn siarad Cymraeg na Saesneg
- cynnwys dimensiwn Cymreig
- adlewyrchu datblygiadau cyfoes a newydd yn y cyfryngau
- cynnig cyfleoedd cyfoethog i ddehongli, dadansoddi a datblygu dealltwriaeth fanwl o sut mae'r cyfryngau'n cyfleu ystyron.

Bydd dysgwyr yn astudio cyfuniad o gynhyrchion priodol i oedran a ddewiswyd gan yr athro a chynhyrchion priodol i oedran a osodwyd gan CBAC. Bydd y cynhyrchion a osodwyd gan CBAC yn cael eu hadolygu yn rheolaidd a'u diweddarau fel bo'r angen.

Fframwaith Cysyniadol

Mae'r fanyleb TAG Astudio'r Cyfryngau hon yn seiliedig ar y fframwaith cysyniadol ar gyfer dadansoddi a chreu cyfryngau, sy'n rhoi'r teclynau i ddysgwyr ddatblygu dealltwriaeth a gwerthfawrogiad beirniadol o'r cyfryngau. Mae'r fframwaith yn cynnwys pedwar rhan rhyngberthnasol:

- **iaith y cyfryngau:** sut mae iaith, codau, confensiynau a thechnegau yn creu ystyron
- **cynrychioliad:** sut mae'r cyfryngau yn cynrychioli digwyddiadau, materion, lleoedd a grwpiau cymdeithasol/diwylliannol
- **diwydiannau'r cyfryngau:** prosesau cynhyrchu, dosbarthu a chylchredeg
- **cynulleidfaoedd:** sut mae cynulleidfaoedd/defnyddwyr gwahanol yn ymateb i gynhyrchion a phrosesau'r cyfryngau, ac yn rhyngweithio gyda'r rhain.

Mae'r fframwaith hwn wedi'i nodi yn fanwl yn yr unedau perthynol yn adrannau 2.1 a 2.2.

Mae'n rhoi dull manwl, cynhwysfawr â ffocws i ddehongli a dadansoddi'r cyfryngau, a bydd dysgwyr yn datblygu'r dull hwn wrth iddynt symud ymlaen drwy'r UG a U2.

Safbwyntiau Beirniadol

Ar UG, bydd dysgwyr yn astudio amrywiaeth o safbwyntiau beirniadol a fydd yn sail i'w dadansoddiad o gynhyrchion a phrosesau'r cyfryngau, ac yn cefnogi hyn. Ar U2, bydd dysgwyr yn astudio amrywiaeth ehangach o safbwyntiau beirniadol. Mae'r rhain fel a ganlyn:

Iaith y Cyfryngau

- Semioteg - Roland Barthes
- Naratifiaeth - Tzvetan Todorov
- Damcaniaeth genre - Steve Neale
- Strwythuriaeth - Claude Lévi-Strauss (U2 yn unig)
- Ôl-foderniaeth - Jean Baudrillard (U2 yn unig)

Cynrychioliad

- Safbwyntiau beirniadol ar gynrychioliad, gan gynnwys ethnigrwydd - Stuart Hall
- Safbwyntiau beirniadol ar hunaniaeth - David Gauntlett
- Safbwyntiau beirniadol ar rywedd - Liesbet van Zoonen (U2 yn unig)
- Safbwyntiau beirniadol ar rywedd ac ethnigrwydd - bell hooks (U2 yn unig)

Cynulleidfaoedd

- Damcaniaeth effeithiau'r cyfryngau - Albert Bandura
- Damcaniaeth diwylliant - George Gerbner
- Damcaniaeth derbyn - Stuart Hall
- Damcaniaethau 'End of audience' – Clay Shirky (UG yn unig)
- Dilynwyr - Henry Jenkin (U2 yn unig)

Mae'r safbwyntiau beirniadol penodol i'w hastudio ym mhob uned wedi'u nodi yn adrannau 2.1 a 2.2. Mae crynodeb o bob safbwynt beirniadol wedi'i gynnwys yn Atodiad A.

Y rhain yw'r safbwyntiau beirniadol craidd mae'n rhaid i ddysgwyr eu hastudio. Gall athrawon ddysgu safbwyntiau beirniadol perthnasol eraill hefyd.

Cyd-destunau'r Cyfryngau

Er mwyn bod yn sail i'w hastudiaeth o'r cyfryngau, bydd dysgwyr yn datblygu gwybodaeth a dealltwriaeth o ddylanwad cyd-destunau a chynhyrchion a phrosesau'r cyfryngau. Bydd y cyd-destunau canlynol yn cael eu hystyried i fod yn sail i'r astudiaeth o gynhyrchion y cyfryngau:

Cyd-destunau'r Diwydiant (UG a U2)

- sut mae cynhyrchion y cyfryngau'n berthnasol i'w cyd-destunau diwydiant, er enghraifft yn nhermau ffactorau economaidd fel perchnogaeth, ariannu a rheoleiddio, a thrwy eu cynrychioliadau, negeseuon ac ideolegau

Cyd-destunau Hanesyddol (U2 yn unig)

- effaith cyd-destunau hanesyddol ar gynrychioliadau
- sut mae cynhyrchion y cyfryngau'n berthnasol i'r amser y cawsant eu gwneud a'u gosod drwy'u cynrychioliadau, mynegiant ac ideolegau

Cyd-destunau Cymdeithasol a Diwylliannol (U2 yn unig)

- sut mae cynhyrchion y cyfryngau'n berthnasol i'r cyd-destunau cymdeithasol a diwylliannol y cawsant eu gwneud a'u gosod drwy'u cynrychioliadau, mynegiant ac ideolegau
- sut mae cynhyrchion y cyfryngau wedi'u siapia neu'n seiliedig ar ddylanwadau diwylliannol penodol fel genres, arddulliau, symudiadau a gwaith cynhyrchwyr cyfryngau eraill
- sut mae cynulleidfa yn ymateb i gynhyrchion sy'n adlewyrchu amgylchiadau cymdeithasol a diwylliannol, ac yn dehongli'r rhain

Sgiliau

Mae'r fanyleb hon yn galluogi dysgwyr i ddatblygu amrywiaeth o sgiliau angenrheidiol i ddehongli a chreu cynhyrchion y cyfryngau, gan gynnwys dadansoddi, cymharu, meddwl yn feirniadol a dadlau, gwerthuso, gwneud penderfyniadau a sgiliau cynhyrchu'r cyfryngau.

Mynediad at gyfryngau cymdeithasol

Rhan arwyddocaol o astudio'r cyfryngau cyfoes yw archwilio rôl cyfryngau ar-lein a chyfryngau cymdeithasol. Mae'r fanyleb yn gofyn am astudio:

- ymgyrchoedd hysbysebu ar-lein
- ffynonellau newyddion ar-lein, gan gynnwys fersiynau ar-lein o bapurau newydd, gwefannau newyddion a newyddion radio ar-lein
- safleoedd cyfryngau cymdeithasol sy'n gysylltiedig â newyddion, er enghraifft *Facebook* a *Twitter*
- marchnata ar-lein ar gyfer ffilmiau a wnaed yng Nghymru a Hollywood
- marchnata ar-lein ar gyfer dramâu trosedd teledu
- cylchgronau ar-lein
- ffurfiau ar-lein o gemau fideo.

Cyfrifoldeb y ganolfan yw galluogi mynediad at ddeunydd ar-lein ar gyfer defnydd addysgol priodol a chyfreithlon. Gellir cyflawni hyn mewn sawl ffordd:

- darparu mynediad at yr amrywiaeth uchod o ddeunydd ar-lein mewn amgylcheddau sy'n cael eu monitro'n addas, gan gynnwys ystafelloedd addysgu
- rhoi gwybod i rieni/gwarcheidwaid am y defnydd cyfreithlon, addysgiadol o'r cyfryngau ar-lein uchod er mwyn galluogi mynediad yn y cartref
- darparu polisi ar gyfer y defnydd addysgiadol cyfreithlon o gyfryngau ar-lein ar gyfer pawb dan sylw.

2.1 UNEDAU UG

Uned 1: Ymchwilio i'r Cyfryngau

Arholiad ysgrifenedig: 2 awr 30 munud

24% o'r cymhwyster

100 marc

Trosolwg

Yn yr uned hon, bydd dysgwyr yn astudio tri thestun, gan ddatblygu gwybodaeth a dealltwriaeth am y cysyniadau allweddol sy'n ymwneud ag astudio'r cyfryngau - **iaith y cyfryngau, cynrychioliadau, diwydiannau'r cyfryngau a chynulleidfaoedd** – a defnyddio'r rhain fel fframwaith i ddadansoddi'r cyfryngau. Y meysydd i'w hastudio yw:

- Gwerthu Delweddau – Hysbysebu a Fideo Cerddoriaeth
- Newyddion yn yr Oes Ar-lein
- Diwydiannau Ffilm – o Gymru i Hollywood.

Bydd dysgwyr yn archwilio'r testunau hyn drwy ddadansoddi a chymharu amrywiaeth o gynhyrchion y cyfryngau yn agos, ystyried agweddau megis eu defnyddio o iaith y cyfryngau, genre a nodweddion naratif, a'r cynrychioliadau y maent yn eu cynnig. Bydd dysgwyr yn astudio rôl diwydiannau'r cyfryngau wrth siapio cynhyrchion y cyfryngau, yn ogystal ag ystyried y ffordd mae cynulleidfaoedd yn cael eu targedu a'r ffordd y gallant ddehongli cynhyrchion y cyfryngau. Bydd safbwyntiau beirniadol perthnasol yn sail i'r astudiaeth hon. Dylai dysgwyr ddatblygu eu gallu i ddefnyddio terminoleg sy'n benodol i'r pwnc yn yr uned hon.

Adran A: Gwerthu Delweddau – Hysbysebu, Marchnata a Fideo Cerddoriaeth

Yn yr adran hon, bydd dysgwyr yn cael eu cyflwyno i ddulliau a sgiliau allweddol ar gyfer dadansoddi cynhyrchion y cyfryngau, archwilio sut mae ystyron yn cael eu creu drwy iaith y cyfryngau ar-lein, a thestunau seiliedig ar brint a thestunau clyweledol. Mae'r ffocws yn y testun hwn ar adeiladu cynrychioliadau rhywedd, ethnigrwydd a materion. Mae astudio hysbysebu a fideo cerddoriaeth fel math o hysbysebu yn hwyluso archwilio sut y defnyddio cynrychioliadau penodol i werthu gwerthoedd, ffyrdd o fyw a delweddau, yn ogystal ag i hyrwyddo negeseuon. Mae'r amrywiaeth eang o gynrychioliadau a gynigir mewn hysbysebu a fideos cerddoriaeth yn eu gwneud yn faes cyfoethog i ddadansoddi a dadlau, yn enwedig lle gallai cynrychioliadau fod yn ddadleuol (fel mewn rhai fideos cerddoriaeth). Bydd dysgwyr yn ystyried hysbysebu masnachol a hysbysebu gyda diben gwahanol, drwy ganolbwyntio ar sut mae materion yn cael eu cyflwyno mewn hysbysebion gwybodaeth i'r cyhoedd neu hysbysebion elusennol. Mae hysbysebu a fideos cerddoriaeth hefyd yn cynnig cyfle da i archwilio sut mae cynulleidfaoedd yn cael eu categorïddio, eu ffurfio a'u targedu gan gynhyrchwyr y cyfryngau, yn ogystal ag ystyried sut y gallai cynulleidfaoedd ddehongli neu ymateb i'r cynhyrchion hyn.

Cynhyrchion i'w Hastudio

Er mwyn paratoi ar gyfer dadansoddi'r adnodd nad ydynt wedi'i weld yn yr arholiad ar gyfer yr adran hon, mae'n rhaid i ddysgwyr astudio amrywiaeth o enghreifftiau priodol i oedran a ddewiswyd gan yr athro sy'n rhoi sylw i'r canlynol:

- hysbysebu print, ar-lein a hysbysebu clyweledol
- **gwybodaeth elusennol neu gyhoeddus** a hysbysebu **masnachol** ar gyfer nwyddau traul
- enghreifftiau hanesyddol o hysbysebu print a chlyweledol a gynhyrchwyd cyn 1980
- fideo cerddoriaeth, gan gynnwys **enghreifftiau** wedi'u cynhyrchu cyn y flwyddyn 2000
- cynrychioliadau gwrthgyferbyniol, defnydd o iaith y cyfryngau a chynulleidfaoedd targed.

Meini prawf ar gyfer dewis cynhyrchion

- Mae'n rhaid i'r cynhyrchion a ddewiswyd ar gyfer yr adran hon fod â gofynion priodol ar gyfer UG.
- Felly, mae'n rhaid i bob cynnyrch a astudir alluogi dysgwyr i astudio pob agwedd ar iaith y cyfryngau, cynrychioliad a chynulleidfaoedd, gan gynnwys y safbwyntiau beirniadol, fel y nodir yn y fanyleb isod.
- Ni fwriedir i'r enghreifftiau o gynhyrchion priodol a restrir isod fod yn gynhwysfawr nag yn rhagnodol.
- Dylai canolfannau gysylltu â CBAC os oes pryder am addasrwydd cynhyrchion a ddewiswyd.

Mae enghreifftiau o ymgyrchoedd gwybodaeth elusennol neu gyhoeddus sy'n briodol i'w hastudio ar gyfer UG yn cynnwys:

- Ymgyrchoedd gwrth-fwlio'r llywodraeth
- Ymgyrchoedd gwrth-hiliaeth y Llywodraeth neu'r Gymdeithas Bêl-droed
- Ymgyrchoedd gwrth-ysmygu'r llywodraeth
- Ymgyrchoedd elusennau plant, fel *Barnardo's* neu *NSPCC*
- Ymgyrchoedd elusennau amgylcheddol, fel *Greenpeace*
- Ymgyrchoedd cydraddoldeb rhywedd
- Ymgyrchoedd ymwybyddiaeth chwaraeon, fel *This Girl Can*.

Mae enghreifftiau helaeth o hysbysebu cyfoes a hanesyddol ar gyfer nwyddau defnyddwyr y gellir eu defnyddio, gan gynnwys y rhai hynny ar gyfer ceir, persawr a chynhyrchion harddwch, nwyddau moeth, cynhyrchion glanhau, diodydd meddal, bwyd cyflym.

Mae enghreifftiau o fideos cerddoriaeth sy'n briodol ar gyfer astudiaeth UG yn cynnwys:

Cyfoes	Cyn 2000
Beyoncé – <i>Run The World (Girls)</i> , <i>Sorry, Forward</i> Dizzee Rascal – <i>Love This Town</i> Katy Perry – <i>California Gurls</i> Leon Bridges – <i>River</i> Radiohead – <i>All I Need</i> Years & Years – <i>Desire</i> (ft. Tove Lo)	Björk – <i>It's Oh So Quiet</i> (1995) Fatboy Slim – <i>Praise You</i> (1999) Jay-Z – <i>Hard Knock Life</i> (1998) Madonna – <i>Like a Prayer</i> (1989) Missy Elliott – <i>The Rain</i> (1997) REM – <i>Everybody Hurts</i> (1993)

*Noder: mae canolfannau'n gyfrifol am ddewis fideos cerddoriaeth sy'n briodol ar gyfer eu dysgwyr a'u hamgylchiadau addysgu.

Er mwyn dyfnhau eu dealltwriaeth o'r ffurfiau a rhoi cyd-destun i'r cynhyrchion a astudiwyd, dylai'r dysgwyr ddatblygu gwybodaeth a dealltwriaeth o hysbysebu a fideo cerddoriaeth fel ffurf y cyfryngau sy'n datblygu o ran y materion cynulleidfa a thestunol perthnasol maen nhw'n eu cyfleu. Fel sail i'w dealltwriaeth o'r enghreifftiau a astudiwyd, dylai dysgwyr gael ymwybyddiaeth o arwyddocâd hanesyddol hysbysebu a fideo cerddoriaeth, eu datblygiad yn y cyfrwng a sut maen nhw'n newid mewn ymateb i ffactorau cynulleidfa.

Fframwaith Cysyniadol

Rhaid i ddysgwyr astudio'r canlynol:

Iaith y Cyfryngau

- yr elfennau gwahanol ar iaith y cyfryngau, gan gynnwys codau technegol, gweledol a sain, gosodiad, dyluniad, iaith, modd cyfeirio
- iaith y cyfryngau ar gyfer delweddau symudol megis gwaith camera (pellter, ongl, symudiad), mise-en-scène (gosodiadau, lleoliadau, gwisgoedd, propiau), golygu (golygu dilyniant) a sain (sain gynefin, sain anghynefin a sain ôl-gynhyrchu)

- iaith y cyfryngau'n seiliedig ar brint fel confensiynau dylunio a gosod, (lleoli delweddau/ffotograffau ac iaith, defnyddio teipograffeg, graffeg a lliw)
- iaith y cyfryngau ar-lein fel confensiynau dylunio (gosod delweddau/ffotograffau ac iaith, dylunio nodweddion llywio a defnyddio cysylltiadau, graffeg, lliw a dyluniad ffont)
- sut mae'r elfennau gwahanol ar iaith y cyfryngau, a'r cyfuniad o elfennau, yn dylanwadu ystyr ac yn cyfleu nifer o ystyron
- sut mae iaith y cyfryngau yn ymgorffori safbwyntiau, negeseuon a gwerthoedd
- sut y gallai cynulleidfaoedd ymateb i iaith y cyfryngau, a'i ddehongli.

Cynrychioliad

- sut mae grwpiau cymdeithasol a diwylliannol yn cael eu cynrychioli, gan gynnwys rhywedd, ethnigrwydd ac oedran
- sut mae materion yn cael eu cynrychioli
- sut mae detholiadau a chyfuniad o agweddau ar iaith y cyfryngau yn ffurfio cynrychioliadau o rywedd, ethnigrwydd, oedran a materion
- sut a pham y gallai rhai grwpiau fod wedi'u tangynrychioli neu wedi'u cam-gynrychioli
- sut a pham y gellir defnyddio stereoteipiau yn gadarnhaol ac yn negyddol
- sut mae cynrychioliadau yn ymgorffori gwerthoedd, agweddau, credoau a negeseuon, a allai gael eu hatgyfnerthu ar draws amrywiaeth o gynhyrchion neu gyfryngau
- effaith pwrpas a chyd-destun ar gynrychioliadau
- sut y gallai cynulleidfaoedd gael eu lleoli gan gynrychioliadau a sut y gallant ymateb iddynt a'u dehongli.

Cynulleidfaoedd

- sut mae cynulleidfaoedd wedi'u grwpio a'u categorïddio gan gynhyrchwyr y cyfryngau, gan gynnwys fesul oedran, rhywedd a dosbarth cymdeithasol, yn ogystal â ffordd o fyw a chwaeth
- sut mae cynhyrchwyr y cyfryngau yn targedu, denu, cyrraedd, annerch ac o bosibl yn creu cynulleidfaoedd
- sut mae cynhyrchwyr y cyfryngau yn targedu cynulleidfaoedd drwy gynnwys ac apêl hysbysebion a fideos cerddoriaeth
- sut y gellir cyrraedd cynulleidfaoedd, ar raddfa genedlaethol a byd-eang, drwy dechnolegau a llwyfannau gwahanol y cyfryngau
- sut y gallai cynulleidfaoedd ddehongli'r cyfryngau, gan gynnwys:
 - sut a pham y gallai cynulleidfaoedd ddehongli'r un hysbysebion a fideos cerddoriaeth mewn ffyrdd gwahanol
 - mathau gwahanol o ymatebion, fel ymatebion dewisol, ymatebion negydol ac ymatebion gwrthwynebol, ymatebion gwirioneddol ac ymatebion llythrennol
 - sut mae ystyron yn cael eu creu yn y rhyngweithio rhwng iaith y cyfryngau ac ymateb cynulleidfa
- sut mae cynulleidfaoedd wedi'u lleoli gan hysbysebion a fideos cerddoriaeth.

Safbwyntiau Beirniadol

Iaith y Cyfryngau

- Semioteg - Roland Barthes

Cynrychioliad

- Safbwyntiau beirniadol ar gynrychioliad, gan gynnwys ethnigrwydd – Stuart Hall
- Safbwyntiau beirniadol ar hunaniaeth – David Gauntlett

Cynulleidfaoedd

- Damcaniaeth diwylliant - George Gerbner
- Damcaniaeth derbyn - Stuart Hall
- Damcaniaeth effeithiau'r cyfryngau – Albert Bandura.

Adran B: Newyddion yn yr Oes Ar-lein

Mae newyddion yn chwarae rôl allweddol wrth roi gwybod i gynulleidfaoedd am y byd a siapio ein barn ar yr hyn sy'n 'wir'. Mae nifer y bobl sy'n gwylio newyddion ar y teledu yn gostwng, mae'r radio wedi symud ar-lein, mae newyddion digidol nawr yn fwy poblogaidd na phapurau newydd, ac mae'r cynnydd mewn newyddion ar y we yn parhau. Yn y testun hwn, bydd dysgwyr yn ystyried i ba raddau mae newyddiaduraeth dinasyddion ac amllder newyddion ar-lein ac ar gyfryngau cymdeithasol wedi cynyddu amrywiaeth a gwahaniaeth y safbwyntiau a gynigir. Bydd dysgwyr yn archwilio sut mae digwyddiadau'n cael eu cynrychioli a'u lledaenu ar draws ffynonellau newyddion gwahanol. Mae'r testun hwn yn cysylltu cynhyrchion y cyfryngau gyda'u cyd-destunau diwydiant a chynulleidfa, gan ystyried dylanwad sefydliadau cyfryngau poblogaidd a chyfryngwyr digidol cynyddol bwerus fel *Facebook*. Bydd dysgwyr yn astudio cynnyrch newyddion yn seiliedig ar brint traddodiadol ynghyd â dwy wefan newyddion a newyddion radio ar-lein. Bydd datblygiad perthynas cynulleidfaoedd/defnyddwyr gyda chyfryngau newyddion gan gynnwys cynulleidfa/defnyddwyr fel cynhyrchwyr, eu defnydd a'u rhyngweithio'n cael ei archwilio drwy astudiaeth ategol o enghreifftiau o gyfryngau cymdeithasol.

Cynhyrchion i'w Hastudio

Mae'n rhaid i ddysgwyr astudio **un** opsiwn o **bob un** o'r grwpiau canlynol gan gynnwys fersiynau print a fersiynau ar-lein yn Opsiwn 1:

Grŵp 1
Papur Newydd a fersiwn Ar-lein gyfatebol
<i>The Guardian</i> a www.theguardian.com
<i>The Daily Mirror</i> a http://www.mirror.co.uk/
<i>The Times</i> a http://www.thetimes.co.uk/

Grŵp 2
Gwefan Newyddion
<i>BBC News Online</i> www.bbc.co.uk/news
<i>The Huffington Post</i> http://www.huffingtonpost.co.uk/
<i>Wales Online</i> www.walesonline.co.uk

Grŵp 3
Newyddion Radio Ar-lein
<i>Today</i> (BBC Radio 4) http://www.bbc.co.uk/programmes/b08hl5rt
<i>Radio Wales Drive</i> (BBC Radio Wales) https://www.bbc.co.uk/programmes/m00050lt
<i>Post Prynhawn</i> (BBC Radio Cymru) http://www.bbc.co.uk/programmes/b08h59py

Rhaid astudio **o leiaf un** digwyddiad arwyddocaol ac mae'n rhaid i ddysgwyr ystyried sut mae'r digwyddiad wedi'i gynrychioli a'i ledaenu ar draws y cyfryngau newyddion a astudiwyd. Mae'n rhaid i'r digwyddiad fod yn eitem newyddion 'caled', fel un sy'n ymwneud â gwleidyddiaeth, trosedd, materion tramor, neu economeg.

Dylai dysgwyr hefyd astudio natur newidiol perthynas cynulleidfaoedd/defnyddwyr â newyddion, gan gynnwys cynhyrchu, eu defnydd a'u rhyngweithio, drwy archwilio'r un digwyddiad newyddion ar draws amrywiaeth o safleoedd cyfryngau cymdeithasol (e.e. Twitter, Facebook, BuzzFeed, YouTube) ac ymatebion (tweets, sylwadau, hoffi, fideos, blogiau, flogiau).

Dylai canolfannau fonitro addasrwydd newyddion ar-lein a safleoedd cyfryngau cymdeithasol sy'n cael eu defnyddio gan ddysgwyr.

Er mwyn dyfnhau eu dealltwriaeth o'r ffurfiau a rhoi cyd-destun i'r cynhyrchion a astudiwyd, dylai'r dysgwyr ddatblygu gwybodaeth a dealltwriaeth o newyddion fel ffurf cyfryngau sy'n datblygu o ran y materion cynulleidfa, diwydiant a thestunol perthnasol maen nhw'n eu cyfleu. Fel sail i'w dealltwriaeth o'r enghreifftiau a astudiwyd, dylai dysgwyr gael ymwybyddiaeth o arwyddocâd hanesyddol newyddion, ei ddatblygiad yn y cyfrwng a sut mae'n newid mewn ymateb i ffactorau cynulleidfa.

Fframwaith Cysyniadol

Rhaid i ddysgwyr astudio'r canlynol:

Iaith y Cyfryngau

- yr elfennau gwahanol ar iaith y cyfryngau, gan gynnwys codau technegol, gweledol a sain, gosodiad, dyluniad, iaith, dull cyfarch
- iaith y cyfryngau papur newydd fel confensiynau dylunio a gosod, (lleoli delweddau/ffotograffau ac iaith, defnyddio colofnau, teitlau, penawdau, capsïynau, defnyddio teipograffeg, graffeg a lliw)
- iaith y cyfryngau newyddion ar-lein fel confensiynau dylunio (gosod delweddau/ffotograffau ac iaith, dylunio nodweddion llywio a defnyddio cysylltiadau, graffeg, lliw a dyluniad ffont)
- codau a chonfensiynau newyddion radio fel lleferydd, cyflwynwyr a chyfweliadau
- sut mae'r elfennau gwahanol ar iaith y cyfryngau, a'r cyfuniad o elfennau, yn dylanwadu ystyr ac yn cyfleu nifer o ystyron
- sut mae technolegau sy'n datblygu yn effeithio ar iaith y cyfryngau
- sut mae iaith y cyfryngau yn ymgorffori safbwyntiau a gwerthoedd
- sut y gallai cynulleidfaoedd ymateb i iaith y cyfryngau, a'i ddehongli.

Cynrychioliad

- sut mae detholiad o agweddau ar iaith y cyfryngau a detholiad ohonynt yn creu cynrychioliadau o ddigwyddiadau
- y ffordd mae'r cyfryngau'n creu fersiynau o realaeth drwy ail-gyflwyno
- sut mae cynrychioliadau yn ymgorffori gwerthoedd, agweddau a chredoau, y gellir eu hategu ar draws amrywiaeth o gyfryngau
- effaith cyd-destunau diwydiant ar y dewisiadau mae cynhyrchwyr y cyfryngau yn eu gwneud am sut i gynrychioli digwyddiadau
- sut y gallai cynulleidfaoedd gael eu lleoli gan gynrychioliadau a sut y gallant ymateb iddynt a'u dehongli.

Diwydiannau'r Cyfryngau

- sut mae prosesau cynhyrchu, dosbarthu a chylchredeg yn siapio cyfryngau newyddion
- y berthynas rhwng newid technolegol diweddar a chynhyrchu, dosbarth a chylchredeg newyddion
- effaith llwyfannau cyfryngau digidol cydgyfeiriol ar gynhyrchu, dosbarth a chylchredeg newyddion
- arwyddocâd perchnogaeth a rheoli cyfryngau newyddion, gan gynnwys perchnogaeth cydgmwni a gwasanaeth cyhoeddus.

Cynulleidfaoedd

- sut mae cynhyrchwyr newyddion yn targedu, denu, cyrraedd, cyfarch ac yn creu cynulleidfaoedd
- sut mae'r diwydiannau newyddion yn targedu cynulleidfaoedd drwy gynnwys ac apêl newyddion a thrwy'r ffyrdd mae'n cael ei ddosbarthu a'i gylchredeg
- sut y gellir cyrraedd cynulleidfaoedd/defnyddwyr, ar raddfa genedlaethol a byd-eang, drwy dechnolegau a llwyfannau gwahanol y cyfryngau
- y rhyngberthynas rhwng technolegau'r cyfryngau a phatrymau defnyddio ac ymateb

- sut mae cynulleidfaoedd yn dehongli'r newyddion, gan gynnwys:
 - sut a pham y gallai cynulleidfaoedd ddehongli'r un cynhyrchion cyfryngau mewn ffyrdd gwahanol
 - mathau gwahanol o ymateb, fel ymatebion dewisol, ymatebion negydol ac ymatebion gwrthwynebol, ymatebion gwirioneddol ac ymatebion llythrennol
 - sut mae ystyron yn cael eu creu yn y rhyngweithio rhwng iaith y cyfryngau ac ymateb cynulleidfa
- sut mae cynhyrchion newyddion yn lleoli cynulleidfaoedd
- sut mae cynulleidfaoedd/defnyddwyr yn rhyngweithio â newyddion a chyfryngau cysylltiedig ar-lein megis gwefannau newyddion neu blatfformau cyfryngau cymdeithasol (e.e. *Facebook*)
- cynulleidfaoedd/defnyddwyr fel cynhyrchwyr newyddion.

Safbwyntiau Beirniadol

Iaith y Cyfryngau

- Semioteg - Roland Barthes

Cynrychioliad

- Safbwyntiau beirniadol ar gynrychioliad, gan gynnwys ethnigrwydd - Stuart Hall

Cynulleidfaoedd

- Damcaniaeth diwylliant - George Gerbner
- Damcaniaeth derbyn - Stuart Hall
- Damcaniaethau 'End of audience' – Clay Shirky.

Adran C: Diwydiannau Ffilm – O Gymru i Hollywood

Yn yr adran hon, mae dysgwyr yn astudio ffilmiau o ddau ddiwydiant sy'n wahanol iawn: y diwydiant ffilm genedlaethol yng Nghymru a diwydiant ffilm fyd-eang Hollywood. Mae'r diwydiant ffilm yng Nghymru yn ddiwydiant bach ond ffyniannus, gydag enw da sy'n tyfu am gynhyrchu ffilmiau gan gynnwys cyfleusterau, lleoliadau a thalent. Mewn blynyddoedd diweddar, mae buddsoddi mewn ffilm yng Nghymru wedi cynyddu'n sylweddol ac mae'r diwydiant wedi gweld ffilmiau Cymreig yn cael llwyddiant a chanmoliaeth uchel. Fel sinema genedlaethol fodd bynnag, mae Cymru yn parhau i wynebu'r her o ddenu arian a sicrhau dosbarthu, ochr yn ochr â diwydiant ffilmiau byd-eang Hollywood, gyda'i marchnad fawr a dosbarthwyr mawr.

Drwy astudiaeth fanwl o ddwy ffilm, bydd dysgwyr yn archwilio materion allweddol cynhyrchu a dosbarthu ffilmiau, gan gynnwys ffynonellau cyllid, pwysigrwydd cynrychiadau ar y cyd a gwyliau ffilm i ddiwydiant ffilm Cymru, a'r ffyrdd penodol y mae Hollywood yn gweithio fel diwydiant ffilm fyd-eang. Er gwaethaf y gwahaniaethau yn y ddau ddiwydiant, mae'r ddau yn defnyddio agweddau fel ffordd allweddol o apelio i gynulleidfaoedd a marchnata eu ffilmiau, ffocws arall i'r astudiaeth hon. Bydd dysgwyr yn ystyried pwysigrwydd genre i ddiwydiannau ffilm a chynulleidfaoedd drwy astudio dwy ffilm o'r un genre: un wedi'i chynhyrchu yng Nghymru, a'r llall wedi'i chynhyrchu yn Hollywood.

Cynhyrchion i'w Hastudio

Mae'n rhaid i ddysgwyr astudio **un** o'r parau canlynol o ffilmiau, gan gynnwys un ffilm a ddosbarthwyd yn annibynnol a wnaed yng Nghymru ac un ffilm Americanaidd a ddosbarthwyd gan ddosbarthwr mawr:

Opsiwn 1	Opsiwn 2
<i>Don't Knock Twice</i> (James, 2016, tystysgrif 15) a <i>Drag Me To Hell</i> (Raimi, 2009, tystysgrif 15)	<i>Submarine</i> (Ayoade, 2010, tystysgrif 15) a <i>Clueless</i> (Heckerling, 1995, tystysgrif 12)
Opsiwn 3	Opsiwn 4
<i>The Machine</i> (James, 2013, tystysgrif 15) a <i>Blade Runner</i> (Scott, 1982, tystysgrif 15)	<i>Y Llyfrgell/The Library Suicides</i> (Lyn, 2016, tystysgrif 15) a <i>Shutter Island</i> (Scorsese, 2010, tystysgrif 15)
Opsiwn 5	
<i>Yr Ymadawiad/The Passing</i> (Bryn, 2015, tystysgrif 15) a <i>The Village</i> (Night Shyamalan, 2004, tystysgrif 12)	

Mae canolfannau'n gyfrifol am ddewis fideos sy'n briodol ar gyfer eu dysgwyr a'u hamgylchiadau addysgu.

Er mwyn dyfnhau eu dealltwriaeth o'r ffurfiau a rhoi cyd-destun i'r cynhyrchion a astudiwyd, dylai'r dysgwyr ddatblygu gwybodaeth a dealltwriaeth o ffilm fel ffurf cyfryngau sy'n datblygu o ran y materion cynulleidfadau a thestunol perthnasol maen nhw'n eu cyfleu. Fel sail i'w dealltwriaeth o'r enghreifftiau a astudiwyd, dylai dysgwyr gael ymwybyddiaeth o arwyddocâd hanesyddol ffilm, ei ddatblygiad yn y cyfrwng a sut mae'n newid mewn ymateb i ffactorau cynulleidfadau.

Fframwaith Cysyniadol

Rhaid i ddysgwyr astudio'r canlynol:

Iaith y Cyfryngau

- iaith ffilm fel gwaith camera (pellter, ongl, symudiad), mise-en-scène (gosodiadau, lleoliadau, gwisgoedd, propiau), golygu (golygu dilyniant) a sain (sain gynefin, sain anghynefin a sain ôl-gynhyrchu)
- sut mae elfennau gwahanol iaith ffilm, a'r cyfuniad o elfennau, yn dylanwadu ar ystyron ac yn eu cyfleu
- genre:
 - codau, confensiynau ac eiconograffig genre
 - egwyddorion ail-adrodd ac amrywio rhaglen o elfennau
 - cymysgrywiaeth a rhyngdestunoldeb
 - arwyddocâd confensiynau genre heriol a/neu wedi'i danseilio
 - natur ddeinamig genre
 - arwyddocâd genre i'r diwydiant ffilm a chynulleidfaoedd ffilm
- saernïaeth, strwythurau, technegau a chonfensiynau naratif.

Diwydiannau'r Cyfryngau

- sut mae prosesau cynhyrchu, dosbarthu (gan gynnwys marchnata) ac arddangos yn siapio ffilmiau mewn cyd-destun byd-eang
- y berthynas rhwng newid technolegol diweddar a chynhyrchu, dosbarthu ac arddangos cyfryngau
- effaith llwyfannau cyfryngau cydgyfeiriol digidol ar gynhyrchu, dosbarthu ac arddangos cyfryngau
- arwyddocâd patrymau perchnogaeth a rheoli, gan gynnwys perchnogaeth cydgmwni, integreiddio fertigol ac amrywiaethu
- arwyddocâd ffactorau economaidd, gan gynnwys cyllid stiwdio, cyllid llywodraeth, cefnogaeth gan asiantaethau ffilm a grantiau, i ddiwydiannau ffilm a'u ffilmiau
- pwysigrwydd cyd-gynrychiadau i ddiwydiannau ffilm cenedlaethol
- sut mae diwydiannau ffilm yn cadw amrywiaeth o gynulleidfaoedd yn genedlaethol ac yn fyd-eang, gan gynnwys drwy farchnata
- fframwaith rheoleiddio ffilm yn y DU a rôl rheoleiddio mewn cynhyrchu, dosbarthu ac arddangos byd-eang
- effaith technolegau digidol 'newydd' ar reoleiddio'r cyfryngau.

Cynulleidfaoedd

- sut mae diwydiannau ffilm yn targedu, denu, cyrraedd, annerch ac o bosibl yn creu cynulleidfaoedd
- sut mae diwydiannau ffilm yn targedu cynulleidfaoedd drwy gynnwys ac apêl ffilmiau a thrwy'r ffyrdd y maent yn cael eu marchnata, eu dosbarthu a'u harddangos
- sut y gellir cyrraedd cynulleidfaoedd, ar raddfa genedlaethol a byd-eang, drwy dechnolegau a llwyfannau gwahanol y cyfryngau
- y rhyng-berthynas rhwng technolegau'r cyfryngau a phatrymau defnyddio ac ymateb
- sut mae ffilmiau yn lleoli cynulleidfaoedd
- sut mae cynulleidfaoedd/defnyddwyr yn rhyngweithio gyda ffilm a chyfryngau perthnasol ar-lein
- sut mae cynulleidfaoedd/defnyddwyr yn defnyddio ffilm a chyfryngau perthnasol ar-lein mewn ffyrdd gwahanol, gan adlewyrchu ffactorau demograffig ac agweddau ar hunaniaeth.

Safbwyntiau Beirniadol

Mae'n rhaid i ddysgwyr allu defnyddio'r safbwyntiau beirniadol canlynol wrth ddadansoddi'r ffilmiau gosod:

Iaith y Cyfryngau

- Semioteg – Roland Barthes
- Naratoleg – Tzvetan Todorov
- Damcaniaeth genre – Steve Neale

Cynulleidfaoedd

- Damcaniaeth derbyn – Stuart Hall.

Mae crynodeb o bob safbwynt beirniadol wedi'i gynnwys yn Atodiad A.

Asesu Uned 1

Mae'r uned hon yn asesu gwybodaeth a dealltwriaeth am **iaith y cyfryngau, cynrychioliad, diwydiannau'r cyfryngau a chynulleidfaoedd**.

Bydd dysgwyr yn cael eu hasesu ar eu defnydd o safbwyntiau beirniadol perthnasol a therminoleg benodol i'r pwnc yn yr uned hon.

Mae'r arholiad yn cynnwys tair adran:

Adran A: Gwerthu Delweddau – Hysbysebu a Fideo Cerddoriaeth (40 marc)

Mae'r adran hon yn asesu gwybodaeth a dealltwriaeth am **iaith y cyfryngau, cynrychioliad, a chynulleidfaoedd**.

Bydd ymgeiswyr yn cwblhau **un** cwestiwn yn seiliedig ar **ddeunydd adnoddau** print neu glyweledol nad yw'r ymgeiswyr wedi'i weld.

Adran B: Newyddion yn yr Oes Ar-lein (30 marc)

Mae'r adran hon yn asesu gwybodaeth a dealltwriaeth am **iaith y cyfryngau, cynrychioliad, diwydiannau'r cyfryngau a chynulleidfaoedd**.

Bydd ymgeiswyr yn cwblhau **un** cwestiwn dwy ran sy'n gofyn am gyfeirio at y cynhyrchion newyddion a astudiwyd.

Adran C: Diwydiannau Ffilm – o Gymru i Hollywood (30 marc)

Mae'r adran hon yn asesu gwybodaeth a dealltwriaeth am **iaith y cyfryngau, , diwydiannau'r cyfryngau a chynulleidfaoedd**.

Bydd ymgeiswyr yn cwblhau **un** cwestiwn dwy ran sy'n gofyn am gyfeirio at y ffilmiau a astudiwyd.

Uned 2: Creu Cynhyrchiad y Cyfryngau

Asesiad di-arholiad: caiff ei asesu'n fewnol a'i safoni'n allanol
16% o'r cymhwyster
80 marc

Cynnwys

Mae'r uned hon yn adeiladu ar ddysgu blaenorol mewn ffordd synoptig gan ofyn i ddysgwyr ddatblygu a defnyddio eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth o gysyniadau'r cyfryngau drwy gynhyrchiad ymarferol. Yn

Uned 1, bydd dysgwyr yn meithrin dealltwriaeth fanwl o iaith y cyfryngau, cynrychioliad, diwydiant a chynulleidfa mewn perthynas ag amrywiaeth o ffurfiau cyfryngau. Yn yr uned hon, rhaid i ddysgwyr gymhwyso eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth o gysyniadau allweddol yn y cyfryngau mewn cynhyrchiad ar gyfer cyd-destun a chynulleidfa diwydiant penodol yn un o'r cyfryngau canlynol:

- clyweledol (unigol neu mewn **parau**)
- print (unigol)
- ar-lein (unigol).

Bydd dysgwyr yn cwblhau'r canlynol:

- ymchwil a chynllunio
- cynhyrchu
- dadansoddiad myfyriol ar sut cynhyrchwyd cynrychioliadau a sut defnyddiwyd confensiynau i dargedu cynulleidfa benodol.

Datblygu cynhyrchiad

Wrth ddatblygu eu cynhyrchiad, bydd dysgwyr yn cwblhau'r ymchwil a'r cynllunio.

Ymchwil

Bydd dysgwyr yn ymgymryd â gwaith ymchwil i'r ffordd y defnyddir iaith y cyfryngau i sefydlu confensiynau genre, cynrychioliadau a chynulleidfaoedd targed penodol. Bydd gofyn i ddysgwyr ddadansoddi **tri** chynnyrch cyferbyniol cymaradwy gyda'u cynhyrchiad o ddewis. Gallai'r dadansoddiad hwn fod ar ffurf anodi a/neu nodiadau i gyd-fynd gyda'r cynnyrch neu, yn achos cynhyrchion delwedd symudol, darluniau addas o funudau allweddol o'r cynnyrch. Dylai dysgwyr archwilio'r canlynol:

- confensiynau genre'r cynhyrchion
- y materion cynrychioliad a godwyd gan y cynhyrchion
- sut y defnyddir iaith y cyfryngau i dargedu cynulleidfa benodol.

Gan y bydd natur yr ymchwil yn amrywio'n unol â'r cynhyrchion a ddewiswyd, mae'r terfynau geiriau wedi'u gosod ar leiafswm o **600 gair** ac uchafswm o **750 gair**.

Bydd yr holl ddysgwyr yn gwneud ymchwil unigol, hyd yn oed os ydynt yn gweithio ar y cyd.

Cynllunio

Bydd dysgwyr yn defnyddio'r hyn maent wedi'i sefydlu yn ystod y gwaith ymchwil i greu cynllun ar gyfer eu cynhyrchiad. Bydd y cynllun hwn ar un o'r ffurfiau canlynol:

- bwrdd stori (opsiynau clyweledol)
- dyluniad drafft fesul tudalen (opsiynau print/ar-lein), gan ddefnyddio meddalwedd briodol, sy'n dangos sut y defnyddir iaith y cyfryngau i sefydlu cynrychioliadau a chonfensiynau genre.

Nid oes angen delweddau gwreiddiol ar gyfer cynllunio a gellir defnyddio delweddau y cafwyd hyd iddynt fel enghraifft.

Bydd yr holl ddysgwyr yn cwblhau gwaith cynllunio unigol, hyd yn oed os ydynt yn gweithio ar y cyd. Gallai dysgwyr ddewis un o'r ddau fwrdd stori i wireddu eu cynhyrchiad ar y cyd.

Cynhyrchiad

Bydd dewis o friffiau cynhyrchu yn cael eu gosod. Bydd y rhain yn cael eu hadolygu'n flynyddol a bydd unrhyw newidiadau i friffiau cynhyrchu yn cael eu cyhoeddi ar wefan CBAC dwy flynedd cyn yr asesiad cyntaf.

Bydd briffiau cynhyrchu'n cael eu gosod yn y ffurfiau cyfryngau canlynol:

- fideo cerddoriaeth, hysbysebu a marchnata
- newyddion ar-lein
- ffilm.

Bydd y briffiau cynhyrchu yn nodi cyd-destun, genre a'r gynulleidfa darged arfaethedig ond bydd yn rhoi dewis o ran y ffurf a'r cyfrwng cynhyrchu. Mae'r briffiau gosod yn nodi dealltwriaeth o gynrychioliad am grwpiau cymdeithasol a mannau penodol. Ar gyfer cynrychiadau clyweledol, gall gweithwyr weithio mewn **parau** mewn rolau wedi'u nodi'n amlwg: **bydd un dysgwr yn gyfrifol am y gwaith camera a bydd y dysgwr arall yn gyfrifol am olygu, gan gynnwys sain.**

Argymhellir fod dysgwyr yn cwblhau'r cynhyrchiad ar gyfer yr uned hon o fewn cyfnod amser o tua **32 i 40 awr** er mwyn galluogi cydbwysedd priodol rhwng gwaith ar gyfer y cynhyrchiad a'r unedau arholiad.

Briffiau Cynhyrchiad Gosod

Mae'n rhaid i ddysgwyr ddewis **un** opsiwn o **un** o'r briffiau canlynol.

Briff 1: Gwerthu Delweddau – Hysbysebu a Fideo Cerddoriaeth		
Opsiwn 1 – Opsiwn Clyweledol (unigol neu bâr)	Gofynion y Dasg	Manylion
Cynhyrchwch fideo cerddoriaeth ar gyfer band neu artist indi roc newydd i werthu delwedd y band neu'r artist hwnnw. Dylech greu'r cynnyrch ar gyfer cwmni cynhyrchu annibynnol sy'n targedu cynulleidfa o bobl ifanc 16 - 25 mlwydd oed .	Fideo cerddoriaeth cyflawn	• 3 – 5 munud mewn hyd • Cymhwyso dealltwriaeth o gynrychioliad un grŵp penodol o leiaf (rhywedd, ethnigrwydd neu oedran)
	Gofyniad ychwanegol i barau (fesul dysgwr): Poster taith	• Logo gwreiddiol y band/artist • Cynnwys 1 ddelwedd wreiddiol o leiaf
Opsiwn 2 – Opsiwn print/ar-lein (unigol)	Gofynion y Dasg	Manylion
Cynhyrchwch ymgyrch hysbysebu ar gyfer brand cynnyrch colur neu bersawr newydd i'w hysbysebu mewn cylchgrawn ffasiwn yn y brif ffrwd gyda gwefan (fel <i>Vogue</i> neu <i>GQ</i>). Y gynulleidfa darged yw naill ai gweithwyr proffesiynol gwrywaidd ifanc rhwng 20 a 35 mlwydd oed neu weithwyr proffesiynol benywaidd ifanc rhwng 20 a 35 mlwydd oed.	4 hysbyseb: 1 hysbyseb bwrdd poster 1 hysbyseb cylchgrawn 2 hysbyseb ddigidol wedi'u dylunio ar gyfer llwyfan cyfryngau perthnasol	• Dylunio a chynnwys logo brand gwreiddiol • 5 delwedd wreiddiol wahanol o leiaf ar draws yr ymgyrch • Cymhwyso dealltwriaeth o gynrychioliadau rhywedd ac oedran mewn perthynas â'r chynulleidfa darged benodol

Briff 2: Newyddion yn yr Oes Ar-lein		
Opsiwn 1 – Opsiwn ar-lein (unigol)	Gofynion y Dasg	Manylion
Cynhyrchwch dudalen gartref ar gyfer gwefan newyddion adloniant a'r byd adloniant newydd. Dylai'r wefan dargedu cynulleidfa fenywaidd rhwng 18 a 30 mlwydd oed.	3 dudalen ar-lein: 1 tudalen gartref 2 dudalen bellach 1 adroddiad sain neu fideo	• Dylunio a chynnwys logo gwefan gwreiddiol • Cynnwys prif stori a dwy stori ychwanegol ar draws y tair tudalen –mae'n rhaid i un o'r rhain fod yn adroddiad sain neu fideo 30 – 60 eiliad • O leiaf 500 gair ar draws yr holl straeon • 5 delwedd wreiddiol o leiaf ar draws y tair tudalen • Cymhwyso dealltwriaeth o gynrychioliadau rhywedd ac oedran mewn perthynas â chynulleidfa darged benodol
Opsiwn 2 – Opsiwn ar-lein (unigol)	Gofynion y Dasg	Manylion
Cynhyrchwch dudalen gartref ar gyfer gwefan newyddion rhanbarthol newydd. Dylai'r wefan dargedu cynulleidfa Gymraeg leol rhwng 25 a 44 mlwydd oed.	3 dudalen ar-lein: 1 tudalen gartref 2 dudalen bellach 1 adroddiad sain neu fideo	• Dylunio a chynnwys logo gwefan gwreiddiol • Cynnwys prif stori a dwy stori ychwanegol ar draws y tair tudalen – mae'n rhaid i un o'r rhain fod yn adroddiad sain neu fideo 30 – 60 eiliad • O leiaf 500 gair ar draws yr holl straeon • 5 delwedd wreiddiol o leiaf ar draws y tair tudalen • Cymhwyso dealltwriaeth o gynrychioliadau rhywedd ac oedran mewn perthynas â chynulleidfa darged benodol

Briff 3: Ffilm		
Opsiwn 1 – Opsiwn Clyweledol (unigol neu bâr)	Gofynion y Dasg	Manylion
Cynhyrchwch ddilyniant agoriadol naill ai ar gyfer ffilm genre comedi rhamantaidd neu ffilm genre arswyd i bobl ifanc yn eu harddegau wedi'i chynhyrchu naill ai gan: - prif gwmni ffilmiau (e.e. Warner neu Universal), neu - cwmni cynhyrchu ffilmiau annibynnol (e.e. Warp neu Working Title) Dylai'r ffilm dargedu cynulleidfa o oedolion ifanc rhwng 16 a 25 mlwydd oed.	Dilyniant agoriadol cyflawn	3 – 5 munud o hyd - Cymhwyso dealltwriaeth o gynrychioliadau rhywedd ac oedran mewn perthynas â genre a chynulleidfa darged
	Gofyniad ychwanegol i barau (fesul dysgwr): Poster Rhagflas	- Dylunio a chynnwys teitl a logo gwreiddiol ar gyfer y ffilm - Cynnwys 1 ddelwedd wreiddiol o leiaf
Opsiwn 2 – Opsiwn print/ar-lein (unigol)	Gofynion y Dasg	Manylion
Cynhyrchwch ymgyrch marchnata ffilm naill ai ar gyfer ffilm genre comedi rhamantaidd neu ffilm genre arswyd i bobl ifanc yn eu harddegau wedi'i chynhyrchu naill ai gan: - prif gwmni ffilmiau (e.e. Warner neu Universal), neu - cwmni cynhyrchu ffilmiau annibynnol (e.e. Warp neu Working Title) Dylai'r ymgyrch dargedu cynulleidfa o oedolion ifanc rhwng 16 a 25 mlwydd oed	4 hysbyseb: 1 poster bwrdd poster 1 poster rhagflas 2 boster pennawd bras digidol	- Dylunio a chynnwys teitl a logo gwreiddiol ar gyfer y ffilm 6 delwedd wreiddiol wahanol o leiaf ar draws yr ymgyrch - Cymhwyso dealltwriaeth o gynrychioliadau rhywedd ac oedran mewn perthynas â genre a chynulleidfa darged

Dadansoddiad Myfyriol

Bydd dysgwyr yn dadansoddi ac yn gwerthuso eu cynhyrchiad mewn perthynas â **thri** chynnyrch y maent wedi ymchwilio iddynt. Bydd y dadansoddiad myfyriol yn amlygu'r defnydd o gysyniadau'r cyfryngau yng nghyrchiadau dysgwyr, gan gyfeirio at safbwyntiau beirniadol perthnasol, drwy ganolbwyntio ar y canlynol:

- sut mae confensiynau genre allweddol wedi'u hymgorffori yn eu cynhyrchiad
- y materion cynrychioliad a godwyd gan y cynhyrchiad
- sut y defnyddir iaith y cyfryngau a chonfensiynau eraill i dargedu'r gynulleidfa benodol.

Anogir dysgwyr i ddewis a chanolbwyntio ar elfennau allweddol y cynhyrchiad, gan wneud cymariaethau rhwng y cynhyrchion y maent wedi ymchwilio iddynt a'u cynhyrchiad cyflawn nhw.

Mae'n rhaid i'r gwaith fod ar ffurf wedi'i airosesu a gellir cynnwys lluniau eglurhaol (ciplun sgrin neu ddelweddau). Y terfyn geiriau yw: **650 gair - 850 gair**.

Bydd yr holl ddysgwyr yn cwblhau dadansoddiad myfyriol unigol. Dylai dysgwyr sy'n gweithio ar y cyd ar gynrychiadau clyweledol roi sylw ar y cynhyrchiad terfynol fel cynnyrch cyflawn mewn perthynas â'u hymchwil unigol.

Gofynion eraill

Cynhyrchiad annibynnol a chydweithredol

Mae'n rhaid i'r holl gynrychiadau fod yn unigol ac eithrio cynrychiadau clyweledol. Ar gyfer **cynrychiadau clyweledol**, gall dysgwyr weithio **yn unigol** neu mewn **parau** mewn rolau wedi'u nodi'n glir: **bydd un dysgwr yn gyfrifol am y gwaith camera a bydd y dysgwr arall yn gyfrifol am olygu, gan gynnwys sain**. Yn ogystal â hynny, gall cynorthwyyr nad ydynt yn cael eu hasesu weithredu'r offer goleuo a sain os oes angen sain a goleuo annibynnol, a hynny dan gyfarwyddyd y dysgwr(dysgwyr) sy'n cael eu hasesu. Gall cynorthwyyr eraill nad ydynt yn cael eu hasesu ymddangos mewn cynrychiadau, er enghraifft fel actorion neu fodelau. Mae'n rhaid i'r holl waith arall fod yn unigol fel sydd wedi'i nodi isod.

Gwaith clyweledol cydweithredol: ymchwilio, cynllunio a dadansoddi myfyriol

Lle mae dysgwyr yn bwriadu cydweithio ar gynhyrchiad clyweledol, dylent wneud gwaith ymchwil unigol a chwblhau bwrdd stori unigol. Yn y gwerthusiad hwn, dylai dysgwyr ddadansoddi a gwerthuso'r cynhyrchiad cyflawn yn hytrach na'u rôl unigol eu hunain a'i gymharu gyda'u cynhyrchion eu hunain y maen nhw wedi ymchwilio iddynt ar eu pen eu hunain.

Deunydd gwreiddiol a deunydd nad yw'n wreiddiol

Mae gofyn i ddysgwyr greu deunydd gwreiddiol ar gyfer y cynhyrchiad ei hun, er y gellir defnyddio deunydd y cafwyd hyd iddo yn y broses gynllunio. Dylai dysgwyr sy'n gweithio mewn deunydd print osgoi dyblygu delweddau ar draws cynhyrchion a dylai'r rhain fod yn eithaf gwahanol tra'n cadw synnwyr o hunaniaeth brand. Mewn rhai amgylchiadau, gallai fod yn hanfodol cynnwys delweddau neu recordiadau nad ydynt yn wreiddiol, y cafwyd hyd iddynt, er enghraifft lle mae confensiynau'r genre yn cynnwys defnyddio'r deunydd y cafwyd hyd iddo (e.e. rhaglen ddogfen yn defnyddio recordiad o'r archif) neu lle y byddai'n amhosibl neu'n anymarferol cynhyrchu delwedd neu recordiad (e.e. saethiad o ffrwydrad neu leoliad cefndir o'r anialwch). Mewn achosion o'r fath, gellir defnyddio deunydd y cafwyd hyd iddo cyhyd â nad hwn yw prif ffocws y cynnyrch (h.y., cefnogi'r prif ffocws yn unig y dylai'r delweddau neu ddeunydd y cafwyd hyd iddynt ei wneud). Mae defnyddio delweddau neu recordiad nad yw'n wreiddiol wedi'i gyfyngu i:

- 30 eiliad o recordiad y cafwyd hyd iddo mewn cynnyrch clyweledol neu gynnyrch ar-lein
- 1 ddelwedd gefndir y cafwyd hyd iddi fesul tudalen o argraffu neu gynnyrch ar-lein

Ni ellir asesu delweddau a recordiadau nad ydynt yn wreiddiol – gellir gwobrwyo dysgwyr am **ddewis** delweddau neu recordiad priodol, ond nid am **greu** r ddelwedd neu'r recordiad. Mewn cynhyrchion print, fel cefndir yn unig y dylid defnyddio delweddau y cafwyd hyd iddynt; mewn

cynhyrchion clyweledol mae'n rhaid i recordiad y cafwyd hyd iddo fod yn ychwanegol at y terfyn amser (e.e. gallai cynhyrchiad teledu 2 funud o hyd gael 30 eiliad o recordiad y cafwyd hyd iddo, sef cyfanswm o 2 funud, 30 eiliad). **Marciau hyd at ben uchaf band 1 yn y meini prawf marcio yn unig y gellir eu dyfarnu i ymgeiswyr nad ydynt yn defnyddio recordiad, delweddau neu destun gwreiddiol ar gyfer y rhan fwyaf o'u cynhyrchiad.**

Deunydd â hawlfraint

Cyfrifoldeb y canolfannau yw sicrhau nad yw dysgwyr yn torri cyfyngiadau hawlfraint.

- Ar gyfer cynhyrchiadau hysbysebu neu farchnata, ni ellir defnyddio cynhyrchion neu ffilmiau sy'n bodoli'n barod.
- Cyfrifoldeb y ganolfan a'r dysgwr yw'r defnydd o unrhyw ddeunydd y cafwyd hyd iddo.

Yn y canllawiau hyn, fel nodwyd uchod, mae'n dderbyniol i ddysgwyr ddefnyddio cân neu drac sy'n bodoli eisoes gan fand neu artist ar gyfer yr opsiwn **cynhyrchiad fideo cerddoriaeth**, cyhyd â *nad oes* gan y trac a ddewiswyd fideo yn barod. Gall dysgwyr hefyd ddewis cydweithio gydag adrannau neu ddysgwyr cerddoriaeth i greu cerddoriaeth wreiddiol i'w defnyddio mewn cynhyrchiadau.

Yn yr un modd, at ddibenion asesiad yr arholiad yn unig, mae sefydliadau cyfredol wedi cael eu defnyddio i roi cyd-destun diwydiant clir i rai briffiau cynhyrchiad.

Offer/Meddalwedd

Mae angen i ddysgwyr allu manteisio ar offer ac adnoddau addas ar gyfer eu gwaith cynhyrchu.

Ar gyfer gwaith clyweledol, argymhellir defnyddio camerâu digidol a meddalwedd golygu digidol. Caniateir defnyddio ffonau symudol ar gyfer delweddau symudol os ydynt wedi'u gosod ar drybedd. Nid yw offer sain a golau annibynnol yn angenrheidiol ond gellir eu defnyddio.

Mae'n rhaid rhestru'r pecynnau meddalwedd a ddefnyddir wrth greu'r cynhyrchiad y cyfryngau ar y dudalen flaen gydag eglurhad byr o sut maent wedi cael eu defnyddio. Bydd yr aseswr yn ystyried y wybodaeth hon wrth farcio pob cynhyrchiad. Ni fwriedir i ddysgwyr greu gwefan gan ddefnyddio cod. Fodd bynnag, dylent fod yn gyfrifol am ddylunio'r wefan a dylent ddefnyddio templedi plaen. Lle mae gorddibyniaeth wedi bod ar dempledi sy'n bodoli'n barod, bydd hyn yn arwain at ddyfarnu marc is.

Asesu Uned 2

Caiff Uned 2 ei hasesu'n fewnol a'i safoni'n allanol gan ddefnyddio'r gridiau asesu yn Atodiad B y fanyleb hon. 80 yw cyfanswm y marciau sydd ar gael, sy'n cael eu dyrannu fel a ganlyn:

- **ymchwilio** i dri chynnyrch cymaradwy gyda'r cynhyrchiad (10 marc, AA3)
- **cynllunio** ar gyfer y cynhyrchiad (10 marc, AA3)
- **cynhyrchiad** (50 marc, AA3)
- **dadansoddiad myfyriol** (10 marc, AA2).

Mae'r Amcanion Asesu wedi'u nodi yn adran 3.1 isod.

Mae'n rhaid i athrawon ddefnyddio'r grid asesu a'r canllawiau sydd wedi'u darparu yn Atodiad B wrth gynnal asesiad mewnol Uned 2. Cawsant eu llunio er mwyn cysylltu'r amcanion asesu â marciau a helpu i wahaniaethu'n glir rhwng yr amrywiol lefelau cyflawniad. Bydd y cynlluniau marcio o'r gwerth mwyaf pan fyddant yn cael eu defnyddio ar y cyd â'r canllawiau ac enghreifftiau o waith wedi'u hasesu, y bydd CBAC yn eu darparu er mwyn helpu canolfannau i nodi ansawdd y gwaith sy'n gysylltiedig â'r bandiau marcio amrywiol.

Gweler adran 3.2 i gael manylion pellach ar:

- yr amodau ar gyfer cwblhau'r cynhyrchiad
- tystiolaeth asesu a dilysu
- llên-ladrad a chamymddwyn honedig
- safoni a chyflwyno marciau.

2.2 UNEDAU U2

Uned 3: Y Cyfryngau yn yr Oes Fyd-eang

Arholiad ysgrifenedig: 2 awr 30 munud
36% o'r cymhwyster
90 marc

Trosolwg

Yn yr uned hon bydd gofyn i ddysgwyr astudio amrywiaeth o ffurfiau cyfryngau cyferbyniol yn fanwl, gan archwilio'r holl gysyniadau allweddol – **iaith y cyfryngau, cynrychioliad, diwydiannau'r cyfryngau a chynulleidfaoedd**. Y meysydd i'w hastudio yw:

- Teledu yn yr Oes Fyd-eang
- Cylchgronau: Cyfryngau'r Brif Ffrwd a Chyfryngau Amgen
- Y Cyfryngau yn yr Oes Ddigidol – Gemau Fideo.

Bydd dysgwyr yn archwilio'r meysydd hyn drwy ddadansoddi a chymharu cynhyrchion y cyfryngau'n fanwl, gan ystyried sut mae cynrychioliadau o grwpiau cymdeithasol a diwylliannol yn cael eu creu drwy iaith y cyfryngau. Mae cyd-destun hefyd yn rhan bwysig o'r astudiaeth hon. Bydd dysgwyr yn datblygu dealltwriaeth o sut mae cyd-destunau cymdeithasol, diwylliannol, hanesyddol a'r diwydiant yn siapia cynhyrchion y cyfryngau. Bydd amrywiaeth eang o safbwyntiau beirniadol yn sail i astudiaeth y cynhyrchion. Bydd dysgwyr yn datblygu'r gallu i wneud cysylltiadau rhwng cynhyrchion y cyfryngau, cysyniadau, cyd-destunau a safbwyntiau beirniadol, a defnyddio terminoleg benodol i'r pwnc yn yr uned hon.

Adran A: Teledu yn yr Oes Fyd-eang

Mae teledu heddiw yn ddiwydiant byd-eang. Mae poblogrwydd rhyngwladol genres fel Nordic noir, a'r nifer cynyddol o gyd-gynhyrchiadau rhyngwladol sy'n adlewyrchu trosolwg traws-genedlaethol teledu yn yr oes fyd-eang.

Drwy astudio **tair** drama drosedd gyflawn yn fanwl, bydd dysgwyr yn archwilio deinameg sy'n llywio cynhyrchiad teledu, dosbarthiad a chylchrediad mewn cyd-destunau diwylliannol a chymdeithasol cyfoes ac o safbwynt hanesyddol. Bydd rôl darlledu'r gwasanaeth cyhoeddus mewn marchnad fyd-eang yn cael ei hystyried, wrth i ddysgwyr archwilio arwyddocâd cyd-destunau'r diwydiant lle mae'r cynhyrchion gosod wedi'u cynhyrchu. Bydd y ffordd mae'r diwydiant teledu'n cael ei reoleiddio a'r strategaethau marchnata sy'n cael eu defnyddio i hyrwyddo'r cynhyrchion gosod hefyd yn cael eu harchwilio. Hefyd, bydd dysgwyr yn cael y cyfle i archwilio sut mae'r gynulleidfaoedd wedi'i diffinio, ei chreu a'i thargedu ar raddfa genedlaethol a byd-eang. Yn ogystal â hynny, bydd apêl benodol rhaglenni i gynulleidfaoedd yn cael ei archwilio, a'r ffordd mae cynulleidfaoedd yn defnyddio testunau cyfryngau yn cael eu hystyried.

Bydd dysgwyr hefyd yn archwilio'r ffordd mae'r cynhyrchion hyn yn berthnasol i gyd-destunau diwylliannol a chymdeithasol ehangach, gan ddadansoddi eu defnydd o iaith y cyfryngau ac arwyddocâd diwylliannol ac ideolegol y cynrychioliadau maent yn eu cynnig. Yn benodol, bydd dysgwyr yn archwilio sut mae lle ac agweddau cymhleth ar hunaniaeth ddiwylliannol, Cymru a diwylliannau eraill, yn cael eu cynrychioli, yn ogystal ag ystyried cynrychioliadau lle a rhywedd.

Yn ogystal â hynny, bydd dysgwyr yn archwilio'r ffyrdd mae dramâu trosedd diweddar yn defnyddio

confensiynau traddodiadau drama drosedd gynharach wrth archwilio materion cymdeithasol, diwylliannol a gwleidyddol cyfoes. Felly mae genre yn ganolbwynt penodol yma, gan y bydd dysgwyr yn ystyried i ba raddau mae'r cynhyrchion gosod yn cefnogi cynnig Steve Neale mai'r ffordd orau o ddeall genre yw fel prosesau a allai gael eu 'dominyddu gan ail-adrodd', ond sydd hefyd yn cael eu 'nodweddu'n sylfaenol gan amrywiaeth, gwahaniaeth a newid.'

Cynhyrchion i'w Hastudio

Mae'n rhaid i ddysgwyr astudio **tair** drama drosedd teledu cyflawn.

Mae'n rhaid astudio'r ddrama drosedd teledu canlynol a gynhyrchwyd yng Nghymru:

<i>Y Gwyll/Hinterland</i> (Cymru) <i>Hinterland/Y Gwyll</i> (Cymru) Cyfres 1, Pennod 1: <i>Devil's Bridge</i> (2013)/ <i>Pontarfynach</i> (2013) Rhwydwaith Gwreiddiol: S4C Darlledwyr yn y DU: BBC One Wales, BBC4
--

Mae'n rhaid i ddysgwyr astudio **un** o'r opsiynau canlynol a gynhyrchwyd yn Ewrop:

<i>The Bridge</i> (Denmarc/Sweden) Cyfres 1, Pennod 1 (2012) Rhwydwaith Gwreiddiol: SVT1 (Sweden) DR1 (Denmarc) Darlledwr yn y DU: BBC4	<i>The Disappearance</i> (Ffrainc) Cyfres 1, Pennod 1 (2015) Rhwydwaith Gwreiddiol: France 2 Darlledwr yn y DU: BBC4
<i>The Killing</i> (Denmarc) Cyfres 1, Pennod 1 (2007) Rhwydwaith Gwreiddiol: DR1 (Denmarc) Darlledwr yn y DU: BBC4	<i>Arne Dahl</i> (Sweden) Cyfres 2, Pennod 1 (2015) Rhwydwaith Gwreiddiol: SVT1 (Sweden) Darlledwr yn y DU: BBC4

Hefyd, mae'n rhaid i ddysgwyr astudio **un** o'r dramâu trosedd canlynol a gynhyrchwyd yn y DU ar ddechrau'r 1990au:

<i>Prime Suspect (UK)</i> Cyfres 1, Pennod 1 (1991) Rhwydwaith Gwreiddiol: ITV	<i>Touching Evil</i> Cyfres 1, Pennod 1 (1997) 'Through the Clouds' Rhwydwaith Gwreiddiol: ITV
<i>Morse (UK)</i> Cyfres 8, Pennod 1 (1995) 'The Way Through the Woods' Rhwydwaith Gwreiddiol: ITV	<i>Cracker (UK)</i> Cyfres 2, Pennod 1 (1994) 'To be a Somebody', rhan 1 Rhwydwaith Gwreiddiol: ITV

Drama Drosedd Teledu a gynhyrchwyd yng Nghymru

Mae'r ddrama drosedd '*noir* Celtaidd' arloesol ***Y Gwyll*** yn cael ei ffilmio yn Gymraeg a Saesneg, ac yn cael ei darlledu ar S4C (fersiwn yn yr iaith Gymraeg) a BBC Wales (fersiwn dwyieithog). Mae'r gyfres uchel ei pharch sydd wedi ennill gwobrau wedi denu cynulleidfaoedd cenedlaethol a rhyngwladol mawr. Wedi'i lleoli yn Aberystwyth a'r cyffiniau, mae tirwedd *Y Gwyll* yn creu cefndir atmosfferig, pwerus ac yn chwarae rhan allweddol yn y naratif. Mae'r ddrama drosedd araf, ddwys hon yn cynnwys cynrychioliadau rhywedd diddorol, yn enwedig DCI Mathias, sydd wedi'i aflonyddu gan ei orffennol, a'i bartner benywaidd DI Rhys.

Drama Drosedd Teledu a gynhyrchwyd yn Ewrop y tu allan i'r DU

Mae genre 'Nordic noir' wedi cael effaith fawr ar dirlun teledu ac wedi dylanwadu datblygiad y genre trosedd yn y blynyddoedd diwethaf. Mae nifer o gynrychiadau wedi'u hallforio o Sgandinafia wedi cael llwyddiant rhyngwladol o ran cydnabyddiaeth gritigol a ffigyrau gwylio cryf. Mae'r opsiynau isod yn cynnwys prif dditectif benywaidd, fel Sarah Lund a Saga Nóren, i roi cyferbyniad i *Y Gwyll* o ran cynrychioliad rhywedd.

Mae'r ddrama drosedd Danaidd, ***The Killing***, yn enghraifft hynod lwyddiannus o'r ffenomenon 'Nordic noir'. Mae'r naratif cymhleth, gyda sawl llinyn yn archwilio llofruddiaeth merch ifanc, gan ystyried safbwyntiau personol, cymdeithasol a gwleidyddol. Mae pob pennod yn cynrychioli un diwrnod yn yr ymchwilio ac mae'r strwythur hwn yn dal sylw'r gynulleidfa yn effeithiol drwy gydol y gyfres hir. Mae *The Killing* hefyd yn nodedig am ei sinematograffi, sy'n fframio tirluniau trefol a gwledig i greu synnwyr cryf o le a hunaniaeth ddiwylliannol.

Mae ***The Bridge***, cyd-gynhyrchiad Danaidd/Swedaidd uchel ei barch, wedi dod yn boblogaidd iawn gyda chynulleidfaoedd ac wedi ysbrydoli gwneud fersiwn newydd mewn sawl gwlad. Mae'r gyfres yn canolbwyntio ar y cydweithio rhwng yr heddlu Danaidd a'r heddlu Swedaidd, gan ddatgelu nifer o gynrychioliadau diwylliannol a chymdeithasol sy'n darparu llawer iawn o'r gwrthdaro yn y naratif. Mae *The Bridge* yn defnyddio llawer o gonfensiynau drama drosedd traddodiadol, fel 'ffilm *noir*', tra'n archwilio materion cymdeithasol, diwylliannol a gwleidyddol cyfoes.

Mae **Arne Dahl** yn canolbwyntio ar yr hinsawdd wleidyddol a chymdeithasol drwy ymchwilio i amrywiaeth o droseddau, pob un mewn naratif dwyran. Mae'r strwythur hwn yn galluogi dangosiad mwy manwl o fywydau personol y ditectifs, gan adlewyrchu tuedd sy'n datblygu yn y genre, a'r perthnasau sy'n datblygu rhwng aelodau o'r tîm. Mae **Arne Dahl** yn archwilio materion fel terfysgaeth, llygredigaeth wleidyddol a cham-drin rhywiol sy'n adlewyrchu pryderon cyfredol mewn cymdeithas.

Mae **The Disappearance** yn enghraifft ddiweddar o ddrama drosedd Ffrengig a ddenodd ffigyrau gwyllo uchel ym Mhrydain. Mae'r gyfres wyth rhan hon yn archwilio diflaniad merch yn ei harddegau ac yn cynnwys plot cymhleth gyda sawl tro yng nghynffon y naratif. Er bod nifer o gonfensiynau cyfarwydd drama drosedd/heddlu yn amlwg, mae **The Disappearance** hefyd yn canolbwyntio ar berthnasau cymeriadau ac effaith personol y digwyddiadau yn y plot. Wedi'i lleoli yn Lyon, mae'r gyfres yn creu synnwyr clir o le a hunaniaeth genedlaethol.

Drama Drosedd Teledu a gynhyrchwyd yn y DU, 1990au

Er mwyn meithrin safbwynt hanesyddol ar ddramâu trosedd teledu cyfoes, mae gofyn i ddysgwyr astudio **un** o'r dramâu trosedd gosod. Roedd pob un yn ddramâu arloesol a gynhyrchwyd yn yr 1990au. Bydd hyn yn galluogi dysgwyr i feithrin dealltwriaeth o gynhyrchu teledu yn yr 1990au a sut roedd dramâu trosedd yn mynd i'r afael â phryderon cymdeithasol a diwylliannol y cyfnod. Hefyd, bydd dysgwyr yn gallu astudio sut mae'r genre wedi'i ddefnyddio ar ddau gyfnod amser gwahanol a beth mae hyn yn ei awgrymu am y genre.

Yr opsiynau yw:

- **Prime Suspect** gan Lynda La Plante, oedd yn herio rhywiaeth sefydliadol drwy ei brif uwch arolygydd benywaidd
- **Touching Evil** gan Paul Abbott, gan gynnwys partneriaeth ditectif dyn a menyw ac oedd yn ymchwilio i ochr dywyll plismona a chymdeithas yn yr 1990au
- **Cracker** gan Jimmy McGovern, oedd yn cynnwys seicolegydd anghonfensiynol ac oedd yn herio nifer o faterion cymdeithasol pwysig yr 1990au
- **Inspector Morse** gan Colin Dexter, a gynhyrchwyd gan Anthony Minghella a Kenny McBain, drama drosedd mwy confensiynol, oedd yn nodedig am ei blotiau cywrain oedd yn cynnwys ditectif adweithiol ond anghonfensiynol.

Er mwyn dyfnhau eu dealltwriaeth o'r ffurf a rhoi cyd-destun i'r cynhyrchion a astudiwyd, dylai'r dysgwyr ddatblygu gwybodaeth a dealltwriaeth o deledu fel ffurf cyfryngau sy'n datblygu o ran y materion cynulleidfa, diwydiant a thestunol perthnasol maen nhw'n eu cyfleu. Fel sail i'w dealltwriaeth o'r enghreifftiau a astudiwyd, dylai dysgwyr gael ymwybyddiaeth o arwyddocâd hanesyddol teledu, ei ddatblygiad yn y cyfrwng a sut mae'n newid mewn ymateb i ffactorau cynulleidfa, yn ogystal â chyd-destunau cymdeithasol, diwylliannol a hanesyddol.

Fframwaith Cysyniadol

Rhaid i ddysgwyr astudio'r canlynol:

Iaith y Cyfryngau

- elfennau gwahanol ar iaith y cyfryngau, gan gynnwys codau technegol, gweledol a chodau sain
- iaith y cyfryngau ar gyfer delweddau symudol fel gwaith camera (pellter, ongl, symudiad), mise-en-scène (gosodiadau, lleoliadau, gwisgoedd, propiau), golygu (golygu dilyniant) a sain (sain gynefin, sain anghynefin a sain ôl-gynhyrchu)
- iaith y cyfryngau'n seiliedig ar brint fel confensiynau dylunio a gosod, (lleoli delweddau/ffotograffau ac iaith, defnyddio teipograffeg, graffeg a lliw)

- iaith y cyfryngau ar-lein fel confensiynau dylunio (gosod delweddau/ffotograffau ac iaith, dylunio nodweddion llywio a defnyddio cysylltiadau, graffeg, lliw a dyluniad ffont)
- sut mae'r elfennau gwahanol ar iaith y cyfryngau, a'r cyfuniad o elfennau, yn dylanwadu ystyr ac yn cyfleu nifer o ystyron
- genre:
 - codau, confensiynau ac eiconograffig genre
 - egwyddorion ail-adrodd ac amrywio rhaglen o elfennau
 - cymysgrywiaeth a rhyngdestunoldeb
 - arwyddocâd confensiynau genre heriol a/neu wedi'i danseilio
 - sut mae genres yn adlewyrchu eu cyd-destunau hanesyddol a chymdeithasol
 - natur ddeinamig genre
 - arwyddocâd genre i'r diwydiant teledu ac i gynulleidfaoedd teledu
- saernïaeth, strwythurau, technegau a chonfensiynau naratif
- sut mae iaith y cyfryngau yn ymgorffori safbwyntiau ac ideoleg.

Cynrychioliad

- prosesau cyflwyno'r hyn sy'n 'real': dethol, adeiladu a chyfryngu
- sut mae cynrychioliadau o drosedd a throeddolrwydd yn cael eu creu
- sut mae cynrychioliadau o le a grwpiau diwylliannol/cymdeithasol, gan gynnwys hunaniaeth ddiwylliannol a rhywedd, yn cael eu creu
- stereoteipiau a chynrychioliadau:
 - prosesau categorïddio, adnabyddiaeth a chydabyddiaeth
 - sut a pham y gellir defnyddio stereoteipiau yn gadarnhaol ac yn negyddol
- sut a pham y gallai rhai grwpiau fod wedi'u tangynrychioli neu wedi'u cam-gynrychioli
- sut mae cynrychioliadau'n ymgorffori gwerthoedd, agweddau, credoau, ideolegau a mynegiant, y gellir eu hatgyfnerthu ar draws amrywiaeth o gyfryngau
- effaith cyd-destunau cymdeithasol, diwylliannol, hanesyddol a'r diwydiant ar gynrychioliadau
- sut y gallai cynulleidfaoedd gael eu lleoli gan gynrychioliadau a sut y gallant ymateb iddynt a'u dehongli.

Diwydiannau'r Cyfryngau

- sut mae prosesau cynhyrchu, dosbarthu a chylchredeg yn siapio cynhyrchion y cyfryngau mewn cyd-destun byd-eang
- perthynas newid technolegol diweddar a chynhyrchu, dosbarthu a chylchredeg y cyfryngau
- effaith llwyfannau cyfryngau cydgyfeiriol digidol ar gynhyrchu, dosbarthu a chylchredeg y cyfryngau
- arwyddocâd patrymau perchnogaeth a rheoli, gan gynnwys perchnogaeth gan gwmnïau cyfryngau a darlledu'r gwasanaeth cyhoeddus
- arwyddocâd ffactorau economaidd, gan gynnwys cyllid masnachol a chyllid cyhoeddus, i deledu a'i gynhyrchion
- sut mae sefydliadau'r cyfryngau yn cadw amrywiaeth o gynulleidfaoedd yn genedlaethol ac yn fyd-eang, gan gynnwys drwy farchnata
- fframwaith rheoleiddio teledu yn y Du a rôl rheoleiddio wrth gynhyrchu, dosbarthu a chylchredeg yn fyd-eang
- effaith technolegau digidol 'newydd' ar reoleiddio'r cyfryngau.

Cynulleidfaoedd

- sut mae cynulleidfaoedd wedi'u grwpio a'u categorïddio gan y diwydiant teledu, gan gynnwys yn ôl oedran, rhywedd a dosbarth cymdeithasol, yn ogystal â ffordd o fyw a chwaeth
- rôl ac arwyddocâd cynulleidfaoedd arbenigol, gan gynnwys dilynwyd ac arbenigol, i'r diwydiant teledu
- sut mae cynhyrchwyr teledu yn targedu, denu, cyrraedd, cyfarch ac o bosibl yn creu cynulleidfaoedd
- sut mae'r diwydiant teledu yn targedu cynulleidfaoedd drwy gynnwys ac apêl eu cynhyrchion cyfryngau a thrwy'r ffyrdd y maent yn cael eu marchnata, dosbarthu a'u cylchredeg
- sut mae'r diwydiant teledu yn adlewyrchu anghenion gwahanol gynulleidfaoedd mäs a chynulleidfaoedd arbenigol gan gynnwys drwy dargedu
- sut y gellir cyrraedd cynulleidfaoedd arbenigol, ar raddfa genedlaethol a byd-eang, drwy dechnolegau a llwyfannau cyfryngau gwahanol
- y rhyng-berthynas rhwng technolegau'r cyfryngau a phatrymau defnyddio ac ymateb
- sut mae cynulleidfaoedd yn dehongli'r cyfryngau, gan gynnwys:
 - sut a pham y gallai cynulleidfaoedd ddehongli'r un cynhyrchion cyfryngau mewn ffyrdd gwahanol
 - gwahanol fathau o ymateb, fel darlenniadau a ffefrir, a gytunwyd ac wedi'u gwrthwynebu, ymatebion llythrennol neu wirioneddol
 - sut mae ystyron yn cael eu creu yn y rhyngweithio rhwng iaith y cyfryngau ac ymateb cynulleidfa
- sut mae cynhyrchion y cyfryngau'n lleoli cynulleidfaoedd
- sut mae cynulleidfaoedd yn rhyngweithio â theledu a chyfryngau cysylltiedig ar-lein fel gwefannau'r diwydiant teledu neu blatfformau cyfryngau cymdeithasol (e.e. *Facebook*)
- sut mae cynulleidfaoedd yn defnyddio teledu a chyfryngau cysylltiedig ar-lein fel gwefannau'r diwydiant teledu neu blatfformau cyfryngau cymdeithasol (e.e. *Facebook*) mewn ffyrdd gwahanol, gan adlewyrchu ffactorau demograffig yn ogystal ag agweddau ar hunaniaeth a chyfalaf diwylliannol
- sut mae dehongliadau gwahanol gynulleidfaoedd yn adlewyrchu amgylchiadau cymdeithasol a diwylliannol.

Safbwyntiau Beirniadol

Mae'n rhaid i ddysgwyr allu defnyddio'r safbwyntiau beirniadol canlynol wrth ddadansoddi'r cynhyrchion teledu gosod:

Iaith y Cyfryngau

- Semioteg – Roland Barthes
- Naratoleg – Tzvetan Todorov
- Damcaniaeth genre – Steve Neale
- Strwythuriaeth – Claude Lévi-Strauss
- Ôl-foderniaeth – Jean Baudrillard

Cynrychioliad

- Safbwyntiau beirniadol ar gynrychioliad, gan gynnwys ethnigrwydd – Stuart Hall
- Safbwyntiau beirniadol ar hunaniaeth – David Gauntlett
- Safbwyntiau beirniadol ar rywedd – Liesbet van Zoonen
- Safbwyntiau beirniadol ar rywedd ac ethnigrwydd – bell hooks

Cynulleidfaoedd

- Damcaniaeth derbyn – Stuart Hall.

Mae crynodeb o bob safbwynt beirniadol wedi'i gynnwys yn Atodiad A.

Adran B: Cylchgronau – Newid Cynrychioliadau

Mae'r diwydiant cylchgronau yn y DU yn amgylchedd cyfryngau hynod heriol, gyda miloedd o deitlau'n cystadlu am ddarlledwyr a gofod marchnad. Yma, bydd dysgwyr yn astudio cyfanswm o dri chylchgrawn. Drwy astudio dau gylchgrawn cyfoes ar-lein, bydd dysgwyr yn datblygu dealltwriaeth o'r ffactorau cyd-destunol sy'n llywio eu cynhyrchiad, dosbarthiad, cylchrediad a defnydd. Mae'r ffaith bod cymaint o gylchgronau ar-lein yn nodwedd bwysig yn y farchnad cylchgronau cyfoes a bydd dysgwyr yn archwilio pwysigrwydd llwyfannau ar-lein i'r diwydiant cylchgronau ac i gynulleidfaoedd cylchgronau.

Bydd dysgwyr hefyd yn ystyried arwyddocâd y cynrychioliadau a gynigwyd gan y cylchgronau a astudiwyd. Drwy astudio detholiadau o gylchgrawn hanesyddol yn ogystal â'r cylchgronau cyfoes ar-lein, bydd dysgwyr yn archwilio sut mae cynrychioliadau ac ideolegau'n berthnasol i gyd-destunau cymdeithasol, diwylliannol a hanesyddol.

Cynhyrchion i'w Hastudio

Mae'n rhaid i ddysgwyr astudio **tri** cylchgrawn **gwrthgyferbyniol** sydd wedi cael eu cynhyrchu mewn cyd-destunau diwydiant a hanesyddol gwahanol ac sy'n targedu cynulleidfaoedd gwahanol, gan gynnwys cylchgrawn merched o'r 1960au, cylchgrawn ffordd o fyw neu gylchgrawn enwog cyfoes o'r brif ffrwd a chylchgrawn a gynhyrchwyd o du allan i'r brif ffrwd ar gyfer cynulleidfa arbenigol. Felly mae'r cylchgronau a astudiwyd yn cynnig cyfleoedd cyfoethog i archwilio effaith cyd-destunau diwydiant, cymdeithasol, diwylliannol a hanesyddol gwahanol ar gylchgronau. Mae'n rhaid i ddysgwyr astudio'r cylchgrawn o ddewis mewn perthynas â'r holl feysydd yn fframwaith cysyniadol y cyfryngau: iaith y cyfryngau, cynrychioliad, diwydiant a chynulleidfaoedd.

Mae'n rhaid astudio **un** cylchgrawn o **bob un** o'r tair set ganlynol:

Set 1: Cylchgronau hanesyddol	Set 2: Cylchgronau cyfoes prif ffrwd ar-lein	Set 3: Cylchgronau ar-lein cyfoes nad ydynt yn y brif ffrwd
<i>Vogue</i> (Gorffennaf 1965, Conde Nast)	<i>Cosmopolitan</i> http://www.cosmopolitan.co.uk/	<i>Adbusters</i> https://www.adbusters.org/
<i>Woman</i> (23-29 Awst 1964, IPC)	<i>Hello</i> http://www.hellomagazine.com/	<i>Attitude</i> http://attitude.co.uk/
<i>Woman's Realm</i> (7-13 Chwefror 1965, IPC)	<i>Men's Health</i> http://www.menshealth.co.uk/	<i>Huck</i> http://www.huckmagazine.com/
Bydd detholiadau o'r cylchgronau hanesyddol yn cael eu darparu ar wefan ddiogel CBAC.	<i>Vogue</i> http://www.vogue.co.uk/	<i>Pride</i> http://pridemagazine.com/

Mae canolfannau'n gyfrifol am fonitro cynnwys y cylchgronau ar-lein a ddewiswyd a sicrhau ei fod yn briodol i'w dysgwyr.

Er mwyn dyfnhau eu dealltwriaeth o'r ffurf a rhoi cyd-destun i'r cynhyrchion a astudiwyd, dylai'r dysgwyr ddatblygu gwybodaeth a dealltwriaeth o gylchgronau fel ffurf cyfryngau sy'n datblygu o ran y materion cynulleidfa, diwydiant a thestunol perthnasol maen nhw'n eu cyfleu. Fel sail i'w dealltwriaeth o'r enghreifftiau a astudiwyd, dylai dysgwyr gael ymwybyddiaeth o arwyddocâd hanesyddol cylchgronau, eu datblygiad yn y cyfrwng a sut maen nhw'n newid mewn ymateb i ffactorau cynulleidfa, yn ogystal â chyd-destunau cymdeithasol, diwylliannol a hanesyddol.

Fframwaith Cysyniadol

Rhaid i ddysgwyr astudio'r canlynol:

Iaith y Cyfryngau

- elfennau gwahanol ar iaith y cyfryngau, gan gynnwys codau technegol a gweledol, gosodiad, dyluniad, iaith, dull cyfarch
- iaith y cyfryngau'n seiliedig ar brint fel dylunio a gosod tudalen, gosod a newid maint ffotograffau a delweddau, dylunio a gosod testun, teipograffeg, graffeg a lliw
- iaith y cyfryngau ar-lein fel confensiynau dylunio (gosod delweddau/ffotograffau ac iaith, dylunio nodweddion llywio a defnyddio cysylltiadau, graffeg, lliw a dyluniad ffont)
- sut mae'r elfennau gwahanol ar iaith y cyfryngau, a'r cyfuniad o elfennau, yn dylanwadu ystyr ac yn cyfleu nifer o ystyron
- codau a chonfensiynau cylchgronau fel ffurf
- codau a chonfensiynau genre'r cylchgrawn a astudiwyd
- sut mae iaith y cyfryngau yn ymgorffori safbwyntiau ac ideoleg
- sut mae cynulleidfaoedd yn ymateb i iaith y cyfryngau ac yn ei dehongli.

Cynrychioliad

- sut mae grwpiau cymdeithasol a diwylliannol (gan gynnwys rhywedd, ethnigrwydd a rhywioldeb) yn cael eu cynrychioli
- sut mae detholiad a chyfuniad o agweddau ar iaith y cyfryngau yn creu cynrychioliadau
- sut a pham y gellir tangynrychioli neu gam-gynrychioli grwpiau cymdeithasol penodol, mewn cyd-destun cenedlaethol a byd-eang
- sut a pham y gellir defnyddio stereoteipiau yn gadarnhaol ac yn negyddol
- sut mae cynrychioliadau'n ymgorffori gwerthoedd, agweddau, credoau, ideolegau a mynegiant, y gellir eu hatgyfnerthu ar draws amrywiaeth o gyfryngau
- effaith cyd-destunau diwylliannol a chymdeithasol ar gynrychioliadau
- effaith cyd-destunau'r diwydiant ar y dewisiadau mae cynhyrchwyr y cyfryngau yn eu gwneud o ran sut i gynrychioli digwyddiadau, materion, unigolion a grwpiau cymdeithasol
- sut y gallai cynulleidfaoedd gael eu lleoli gan gynrychioliadau a sut y gallant ymateb iddynt a'u dehongli
- sut mae cynulleidfa yn ymateb i gynrychioliadau'r cyfryngau sy'n adlewyrchu amgylchiadau cymdeithasol a diwylliannol, ac yn dehongli'r rhain.

Diwydiannau'r Cyfryngau

- sut mae prosesau cynhyrchu, dosbarthu a chylchredeg yn siapia cynhyrchion y cyfryngau
- perthynas newid technolegol diweddar a chynhyrchu, dosbarthu a chylchredeg y cyfryngau
- effaith llwyfannau cyfryngau cydgyfeiriol digidol ar gynhyrchu, dosbarthu a chylchredeg y cyfryngau
- arwyddocâd patrymau perchnogaeth a rheoli, gan gynnwys perchnogaeth cydgmwni, integreiddio fertigol ac amrywiaethu
- arwyddocâd ffactorau economaidd i'r diwydiant cylchgronau a'i gynhyrchion
- sut mae'r diwydiant cylchgronau yn cadw amrywiaeth o gynulleidfaoedd yn genedlaethol ac yn rhyngwladol, gan gynnwys drwy farchnata.

Cynulleidfaoedd

- sut mae cynulleidfaoedd yn cael eu grwpio a'u categoreiddio gan y diwydiant cylchgrawn, gan gynnwys fesul oedran, rhywedd a dosbarth cymdeithasol, yn ogystal â ffordd o fyw a chwaeth rôl ac arwyddocâd cynulleidfaoedd arbenigol, gan gynnwys dilynwyr ac arbenigol, i'r diwydiant cylchgronau
- sut mae cynhyrchwyr y cyfryngau yn targedu, denu, cyrraedd, annerch ac o bosibl yn creu cynulleidfaoedd

- sut mae'r diwydiant cylchgronau yn targedu cynulleidfaoedd drwy gynnwys ac apêl y cylchgronau a thrwy'r ffyrdd y maent yn cael eu marchnata, dosbarthu a'u cylchredeg
- sut mae'r diwydiant cylchgronau yn adlewyrchu anghenion gwahanol gynulleidfaoedd mäs a chynulleidfaoedd arbenigol gan gynnwys drwy dargedu
- sut y gellir cyrraedd cynulleidfaoedd arbenigol, ar raddfa genedlaethol a byd-eang, drwy dechnolegau a llwyfannau cyfryngau gwahanol
- y rhyng-berthynas rhwng technolegau'r cyfryngau a phatrymau defnyddio ac ymateb
- sut mae cynulleidfaoedd yn dehongli'r cyfryngau, gan gynnwys:
 - sut a pham y gallai cynulleidfaoedd ddehongli'r un cynhyrchion cyfryngau mewn ffyrdd gwahanol
 - gwahanol fathau o ymateb, fel darlleniadau a ffefrir, a gytunwyd ac wedi'u gwrthwynebu, ymatebion llythrennol neu wirioneddol
 - sut mae ystyron yn cael eu creu yn y rhyngweithio rhwng iaith y cyfryngau ac ymateb cynulleidfa
- sut mae cylchgronau'n lleoli cynulleidfaoedd
- sut mae cynulleidfaoedd/defnyddwyr yn rhyngweithio â chylchgronau a chyfryngau cysylltiedig ar-lein fel gwefannau cylchgronau neu blatfformau cyfryngau cymdeithasol (e.e. *Facebook*)
- sut mae cynulleidfaoedd yn defnyddio'r cylchgronau mewn ffyrdd gwahanol, gan adlewyrchu ffactorau demograffig yn ogystal ag agweddau ar hunaniaeth a chylaf diwylliannol
- sut mae dehongliadau gwahanol gynulleidfaoedd yn adlewyrchu amgylchiadau cymdeithasol a diwylliannol.

Safbwyntiau Beirniadol

Bydd gofyn i ddysgwyr ddefnyddio'r safbwyntiau beirniadol canlynol wrth ddadansoddi cylchgronau:

Iaith y Cyfryngau

- Semioteg – Roland Barthes
- Strwythuriaeth – Claude Lévi-Strauss

Cynrychioliad

- Safbwyntiau beirniadol ar hunaniaeth – David Gauntlett
- Safbwyntiau beirniadol ar rywedd – Liesbet van Zoonen
- Safbwyntiau beirniadol ar rywedd ac ethnigrwydd – bell hooks

Cynulleidfaoedd

- Damcaniaeth derbyn – Stuart Hall.

Mae crynodeb o bob safbwynt beirniadol wedi'i gynnwys yn Atodiad A.

Adran C: Y Cyfryngau yn yr Oes Ddigidol – Gemau Fideo

Mae gemau fideo yn ffurf ddiwylliannol fawr ledled y byd. Mae diwydiant gemau fideo byd-eang yn anferth ac mae poblogrwydd gemau fideo yn cystadlu yn erbyn poblogrwydd ffilmiau a theledu. Yn yr adran hon, bydd dysgwyr yn astudio'r diwydiant pwysig hwn, gan archwilio'r cysylltiadau a'r synergedd rhwng gemau fideo a chyfryngau eraill fel ffilm a llwyfannau eraill ar-lein, ac ystyried materion allweddol fel sialensiau rheoleiddio yn yr oes ddigidol. Mae gan gemau fideo eu nodweddion unigryw eu hunain a bydd dysgwyr yn archwilio apel nodweddion naratif, ffurfiol, esthetaid a rhyngweithiol gemau fideo. Mae'r cynrychioliadau a gynigir gan gemau fideo yn eu gwneud yn faes cyfoethog i'w dadansoddi, a bydd dysgwyr yn ystyried y dadleuon allweddol sy'n ymwneud â chynrychioliad rhywedd ac ethnigrwydd. Gan eu bod yn datblygu'n barhaus, mae gemau fideo yn cynnig cyfleoedd i archwilio perthnasau rhwng y cynhyrchion a'r cyd-destunau diwylliannol a chymdeithasol y maent wedi'u gwneud a'u defnyddio ynddynt. Mae gemau fideo hefyd yn codi nifer o faterion diddorol yn ymwneud â chynulleidfa, gan gynnwys demograffeg, cymunedau ar-lein a dilynwyr fel cynhyrchwyr. Bydd cwestiynau'n ymwneud â dilynwyr, apel a phleserau i gynulleidfa, ac effeithiau'r cyfryngau yn cael eu hystyried yma.

Cynhyrchion i'w Hastudio

Mae'n rhaid i ddysgwyr astudio **tair** gêm fideo **gyferbyniol** o leiaf, gan gynnwys dwy sy'n seiliedig ar antur ac un gêm efelychiad neu flwch tywod.

<i>Gemau fideo sy'n seiliedig ar antur</i>	<i>Gemau mewn genres eraill</i>
Mae'n rhaid astudio dwyr o'r canlynol	Mae'n rhaid astudio un o'r canlynol
Masnachfaint <i>Assassin's Creed</i>	<i>Wii Sports</i>
Masnachfaint <i>Grand Theft Auto</i>	<i>Cooking Mama</i>
Masnachfaint <i>Mass Effect</i>	<i>Minecraft</i>
Masnachfaint <i>Tomb Raider</i>	<i>The Sims</i>

Er mwyn dyfnhau eu dealltwriaeth o'r ffurf a rhoi cyd-destun i'r cynhyrchion a astudiwyd, dylai'r dysgwyr ddatblygu gwybodaeth a dealltwriaeth o gemau fideo fel ffurf cyfryngau sy'n datblygu o ran y materion cynulleidfa, diwydiant a thestunol perthnasol maen nhw'n eu cyfleu. Fel sail i'w dealltwriaeth o'r enghreifftiau a astudiwyd, dylai dysgwyr gael ymwybyddiaeth o arwyddocâd hanesyddol gemau fideo, eu datblygiad yn y cyfrwng a sut maen nhw'n newid mewn ymateb i ffactorau cynulleidfa, yn ogystal â chyd-destunau cymdeithasol, diwylliannol a hanesyddol.

Fframwaith Cysyniadol

Rhaid i ddysgwyr astudio'r canlynol:

Iaith y Cyfryngau

- sut mae codau technegol, gweledol a chodau sain yn creu ystyr
- iaith y cyfryngau ar gyfer delweddau symudol, wedi'i gyflwyno ar ffurf graffeg, fel mathau o saethiad (pellter, ongl, symudiad), mise-en-scène (gosodiadau, lleoliadau, gwisgoedd, propiau), golygu (golygu dilyniant) a sain (sain gynefin, sain anghynefin a sain ôl-gynhyrchu)
- codau a chonfensiynau gemau fideo fel ffurf: er enghraifft, graffeg, sain, rhyngwyneb, rhyngweithioldeb/ymgolli, nodweddion digymell a/neu nodweddion naratif
- codau a chonfensiynau'r genre gemau fideo
- rhyngdestunoldeb – y defnydd o gyfeiriadau at destunau neu gyfryngau'r cyfryngau sy'n bodoli eisoes i greu adnabyddiad mewn cynulleidfaoedd
- sut mae iaith y cyfryngau yn ymgorffori safbwyntiau ac ideoleg
- sut y gallai cynulleidfaoedd/defnyddwyr ymateb i iaith y cyfryngau, a'i ddehongli.

Cynrychioliad

- sut mae grwpiau diwylliannol a chymdeithasol (gan gynnwys rhywedd ac ethnigrwydd) yn cael eu cynrychioli
- sut mae detholiad a chyfuniad o agweddau ar iaith y cyfryngau yn creu cynrychioliadau
- sut a pham y gellir tan-gynrychioli neu gam-gynrychioli grwpiau cymdeithasol penodol, mewn cyd-destun cenedlaethol a byd-eang
- sut a pham y gellir defnyddio stereoteipiau yn gadarnhaol ac yn negyddol
- sut mae cynrychioliadau'n ymgorffori gwerthoedd, agweddau, credoau, ideolegau a mynegiant, y gellir eu hatgyfnerthu ar draws amrywiaeth o gyfryngau
- effaith cyd-destunau diwylliannol a chymdeithasol ar gynrychioliadau
- effaith cyd-destunau'r diwydiant ar y dewisiadau mae cynhyrchwyr y cyfryngau yn eu gwneud o ran sut i gynrychioli grwpiau cymdeithasol
- sut y gallai cynulleidfaoedd/defnyddwyr gael eu lleoli gan gynrychioliadau a sut y gallant ymateb iddynt a'u dehongli
- sut mae cynulleidfaoedd/defnyddiwr yn ymateb i gynrychioliadau'r cyfryngau sy'n adlewyrchu amgylchiadau cymdeithasol a diwylliannol, ac yn dehongli'r rhain.

Diwydiannau'r Cyfryngau

- sut mae prosesau cynhyrchu, dosbarthu a chylchredeg yn siapio cynhyrchion y cyfryngau
- y berthynas rhwng newid technolegol newydd a chynhyrchu, dosbarthu a chylchredeg y cyfryngau
- effaith llwyfannau cyfryngau cydgyfeiriol digidol ar gynhyrchu, dosbarthu a chylchredeg y cyfryngau
- arwyddocâd patrymau perchnogaeth a rheoli, gan gynnwys perchnogaeth cydgmwni, integreiddio fertigol ac amrywiaethu
- y cysylltiadau a'r synergedd rhwng y diwydiant gemau fideo a diwydiannau eraill y cyfryngau, gan gynnwys ffilm a'r cyfryngau ar-lein fel gwefannau gemau fideo neu llwyfannau cyfryngau cymdeithasol (e.e. Facebook)
- arwyddocâd ffactorau economaidd ar y diwydiant gemau fideo a'u cynhyrchion
- sut mae'r diwydiant gemau fideo yn cadw amrywiaeth o gynulleidfaoedd/defnyddwyr yn genedlaethol ac yn fyd-eang, gan gynnwys drwy farchnata.

Cynulleidfaoedd

- rôl ac arwyddocâd cynulleidfaoedd arbenigol, gan gynnwys dilynwyr, i'r diwydiant gemau fideo
- sut mae'r diwydiant gemau fideo yn targedu, denu, cyrraedd, annerch ac yn creu cynulleidfaoedd
- sut mae'r diwydiant gemau fideo yn targedu cynulleidfaoedd drwy gynnwys ac apel gemau fideo a thrwy'r ffyrdd y maent yn cael eu marchnata, eu dosbarthu a'u cylchredeg
- sut y gellir cyrraedd cynulleidfaoedd, ar raddfa genedlaethol a byd-eang, drwy dechnolegau a llwyfannau gwahanol y cyfryngau
- y rhyng-berthynas rhwng technolegau'r cyfryngau a phatrymau defnyddio ac ymateb
- sut mae cynhyrchion gemau fideo'n lleoli cynulleidfaoedd
- sut mae defnyddwyr yn rhyngweithio gyda gemau fideo a chyfryngau perthnasol ar-lein
- sut y gall defnyddwyr gymryd rhan weithredol gyda gemau fideo drwy chwarae gemau a diwylliannau cymryd rhan
- sut mae defnyddwyr yn defnyddio gemau fideo mewn ffyrdd gwahanol, gan adlewyrchu ffactorau demograffig yn ogystal ag agweddau ar hunaniaeth a chyfalaf diwylliannol.

Safbwyntiau Beirniadol

Bydd gofyn i ddysgwyr ddefnyddio'r safbwyntiau beirniadol canlynol wrth ddadansoddi gemau fideo:

laith y Cyfryngau

- Semioteg – Roland Barthes
- Ôl-foderniaeth – Jean Baudrillard

Cynrychioliad

- Safbwyntiau beirniadol ar gynrychioliad, gan gynnwys ethnigrwydd – Stuart Hall
- Safbwyntiau beirniadol ar hunaniaeth – David Gauntlett
- Safbwyntiau beirniadol ar rywedd – Liesbet van Zoonen
- Safbwyntiau beirniadol ar rywedd ac ethnigrwydd – bell hooks

Cynulleidfaoedd

- Damcaniaeth effeithiau'r cyfryngau – Albert Bandura
- Dilynwyr – Henry Jenkins.

Mae crynodeb o bob safbwynt beirniadol wedi'i gynnwys yn Atodiad A.

Asesu Uned 3

Mae'r arholiad yn asesu gwybodaeth a dealltwriaeth o **bob un o bedwar** maes y fframwaith cysyniadol: iaith y cyfryngau, cynrychioliad, diwydiannau'r cyfryngau, cynulleidfaoedd, yn ogystal â chyd-destunau'r cyfryngau.

Bydd pob adran o'r arholiad yn asesu gwybodaeth a dealltwriaeth am faes **gwahanol** yn y fframwaith cysyniadol.

Bydd un adran hefyd yn asesu gwybodaeth a dealltwriaeth am **gyd-destunau'r cyfryngau**.

Bydd un adran yn gofyn yn benodol am gyfeirio at **safbwyntiau damcaniaethol**.

Bydd dysgwyr hefyd yn cael eu credydu am ddefnyddio safbwyntiau beirniadol perthnasol a therminoleg benodol i'r pwnc perthnasol mewn ymatebion eraill.

Mae'r arholiad yn cynnwys tair adran:

Adran A: Teledu yn yr Oes Fyd-eang (30 marc)

Bydd ymgeiswyr yn cwblhau **un** cwestiwn o ddewis o ddau sy'n gofyn am gyfeirio at **ddwy** o'r dramâu teledu gosod a astudiwyd.

Adran B: Cylchgronau – Newid Cynrychioliadau (30 marc)

Bydd ymgeiswyr yn cwblhau **un** cwestiwn o ddewis o ddau sy'n gofyn am gyfeirio at y **ddau** gylchgrawn gosod a astudiwyd.

Adran C: Y Cyfryngau yn yr Oes Ddigidol – Gemau Fideo (30 marc)

Bydd ymgeiswyr yn cwblhau **un** cwestiwn o ddewis o ddau sy'n gofyn am gyfeirio at **ddau** o'r gemau fideo a astudiwyd.

Uned 4: Creu Cynhyrchiad ar gyfer Gwahanol Gyfryngau

Asesiad di-arholiad: yn cael ei asesu'n fewnol a'i safoni'n allanol gan CBAC

24% o'r cymhwyster

80 marc

Cynnwys

Mae'r uned hon yn adeiladu ar ddysgu blaenorol drwy ofyn i ddysgwyr ddatblygu a chymhwyso eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth o'r cyfryngau drwy gynhyrchiad ymarferol ar gyfer gwahanol gyfryngau.

Yn Unedau 1 a 3, bydd dysgwyr yn meithrin dealltwriaeth fanwl o gysyniadau allweddol astudio'r cyfryngau (iaith y cyfryngau, cynrychioliad, diwydiant a chynulleidfa) mewn perthynas ag amrywiaeth o ffurfiau'r cyfryngau. Yn yr uned hon, bydd dysgwyr yn cymhwyso eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth o gysyniadau allweddol astudio'r cyfryngau drwy gynhyrchu cynhyrchiad ar gyfer gwahanol gyfryngau ar gyfer cynulleidfa arfaethedig.

Yn yr uned U2 hon, bydd pwyslais datblygu cynhyrchiad ar ymchwil ymchwiliol.

Bydd y dysgwyr yn cwblhau'r canlynol:

- ymchwil ymchwiliol
- amlinelliad datblygu, yn arddangos sut bydd eu hymchwil yn sail i'w cynhyrchiad
- dadansoddiad beirniadol o sut mae cysyniad cyfryngau allweddol a ymchwiliwyd wedi cael ei gymhwyso yn y cynhyrchiad.

Y cysyniadau cyfryngau allweddol i ddewis ohonynt yw:

- genre
- cynrychiolaeth
- naratif

Datblygu cynhyrchiad

Ar U2, bydd pwyslais datblygu cynhyrchiad ar ymchwil ymchwiliol. Er na fydd cynllunio'n cael ei asesu'n benodol ar U2, bydd gofyn i ddysgwyr amlinellu sut y bydd canfyddiadau eu hymchwil ymchwiliol yn sail i'w cynhyrchiad, ac yn datblygu i'w cynhyrchiad.

Ymchwil Ymchwiliol

Bydd dysgwyr yn cwblhau ymchwil ymchwiliol rhwng **1250 a 1500 gair** i **un** cynnyrch sy'n gymaradwy â'r cynhyrchiad a ddewiswyd ar gyfer gwahanol gyfryngau, gan ganolbwyntio **naill ai** ar genre **neu** naratif **neu** faterion cynrychioliad. Mae'n rhaid i ddysgwyr gyfeirio at safbwyntiau beirniadol perthnasol, fel y damcaniaethwyr a restrir yn y fanyleb hon. Bydd y gwaith yn cael ei airbrosesu a'i gyflwyno mewn rhyddiaith barhaus a bydd yn cynnwys llyfryddiaeth gryno o bum eitem o leiaf gan ddefnyddio confensiynau priodol. Gwaith annibynnol yw hwn, felly ni chaniateir i ddysgwyr seilio'r ymchwil ymchwiliol ar unrhyw rai o'r cynhyrchion gosod a astudiwyd ganddynt ar gyfer Uned 3.

Amlinelliad datblygu

Bydd canfyddiadau'r ymchwil ymchwiliol yn sail i'r cynhyrchiad ar gyfer gwahanol gyfryngau. Mae gofyn i ddysgwyr amlinellu prif ganfyddiadau eu hymchwil i genre, naratif a chynrychioliad (argymhellir tri i bump) a nodi sut y byddant yn cael eu datblygu i'r cynhyrchiad (**tua 500 gair**). Bydd y gwaith datblygu hwn yn cael ei gyflwyno fel adran ychwanegol i'r ymchwil ymchwiliol.

Os yw dysgwyr yn dewis gweithio fel pâr ar gyfer **un** o'r opsiynau clyweledol, mae'n rhaid i bob dysgwr:

- ymchwilio i'r un cyfrwng cynhyrchu
- dewis cysyniad cyfryngau gwahanol ar gyfer eu hymchwil ymchwiliol
- datblygu'r cysyniad sy'n sail i'w hymchwil yn eu cynhyrchiad
- seilio eu dadansoddiad beirniadol ar y cysyniad maen nhw wedi ymchwilio iddo'n unigol.

Cynllunio

Er nad yw cynllun penodol ar gyfer y cynhyrchiad ar gyfer gwahanol gyfryngau yn rhan o'r asesiad o ddatblygiad ar gyfer yr uned hon, argymhellir fod dysgwyr yn cwblhau cynllunio sy'n briodol i'w cynhyrchiad er mwyn hwyluso'r broses cynhyrchu.

Cynhyrchiad ar gyfer Gwahanol Gyfryngau

Bydd hyn yn galluogi dysgwyr i ddefnyddio eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth o gysyniadau allweddol yn y cyfryngau mewn cynhyrchiad ar gyfer diwydiant a chynulleidfa benodol yn un o'r cyfryngau canlynol:

- clyweledol (unigol neu mewn parau)
- print (unigol)
- ar-lein (unigol).

Bydd briffiau cynhyrchu yn cael eu gosod yn y ffurfiau cyfryngau canlynol:

- teledu
- cylchgronau.

Bydd y rhain yn cael eu hadolygu'n flynyddol a bydd unrhyw newidiadau i friffiau cynhyrchu yn cael eu cyhoeddi ar wefan CBAC dwy flynedd cyn eu hasesu am y tro cyntaf.

Bydd y briffiau cynhyrchu yn nodi cyd-destun y diwydiant a'r gynulleidfa darged arfaethedig ond ni fydd yn rhoi dewis o genre/arddull cynhyrchu. Argymhellir fod dysgwyr yn cwblhau eu cynhyrchiad o fewn cyfnod amser o tua **40 – 48 awr** er mwyn galluogi cydbwysedd priodol rhwng gwaith ar gyfer y cynhyrchiad a'r unedau arholiad.

Ar gyfer cynhyrchiadau clyweledol, gall gweithwyr weithio mewn **parau** mewn rolau wedi'u nodi'n amlwg: **bydd un dysgwr yn gyfrifol am y gwaith camera a bydd y dysgwr arall yn gyfrifol am olygu, gan gynnwys sain.** Os yw dysgwyr yn gweithio fel pâr ar gyfer y cynhyrchiad clyweledol, mae'n rhaid iddynt sicrhau fod yr holl gamau eraill yn ystod y cynhyrchiad yn cael eu cyflawni'n unigol fel a ganlyn:

- bydd pob dysgwr unigol yn gyfrifol am ymchwilio i gysyniad **gwahanol** (genre, naratif neu gynrychioliad) ar gyfer y cynhyrchiad
- mae'n rhaid i bob dysgwr unigol fod yn gyfrifol am sicrhau fod yr agweddau ar genre, naratif neu gynrychioliad maen nhw wedi ymchwilio iddynt ac wedi'u hamlinellu i'w datblygu yn sail i'w cynhyrchiad ar y cyd
- bydd pob dysgwr unigol yn dadansoddi ac yn gwerthu'r cynhyrchiad yn feirniadol o ran y cysyniad maen nhw wedi ymchwilio iddo.
- Bydd yr holl ddysgwyr yn cwblhau gwerthusiad unigol. Dylai dysgwyr sy'n gweithio ar y cyd ar gynhyrchiadau clyweledol roi sylw ar y cynhyrchiad terfynol fel cynnyrch cyflawn mewn perthynas â'u hymchwil unigol.

Argymhellir fod athrawon yn cydlynw ymchwil, datblygiad a dadansoddiad beirniadol y dysgwyr hynny sy'n ceisio cynhyrchu cynhyrchiad clyweledol mewn parau.

Briffiau Cynhyrchiad Gosod

Mae'r briffiau cynhyrchu ar gyfer gwahanol gyfryngau canlynol wedi'u gosod i'w **hasesu am y tro cyntaf yn 2019**.

Mae'n rhaid i ymgeiswyr ddewis **un** o'r briffiau canlynol. Mae'n **rhaid** i bob dysgwr gwblhau **naill** ai opsiynau 1 neu 2 A **naill** ai opsiwn (a) **neu** opsiwn (b).

Briff 1: Teledu (darlledu ac ar-lein)		
Mae'n rhaid i ymgeiswyr ddewis un o'r opsiynau clyweledol canlynol:		
Opsiwn 1 (unigol neu bâr)	Gofynion y Dasg	Manylion
Cynhyrchwch ddilyniant agoriadol rhaglen deledu newydd mewn genre o'ch dewis ar gyfer E4 Dylai'r rhaglen dargedu cynulleidfa o oedolion ifanc rhwng 16 a 25 mlwydd oed .	Dilyniant agoriadol cyflawn	• 3 – 4 munud o hyd (unigol) • 4 – 5 munud o hyd (pâr) • Cymhwyso dealltwriaeth o gynrychioliad o un grŵp penodol o leiaf (rhywedd, ethnigrwydd neu oedran), man neu ddigwyddiad • Cymhwyso dealltwriaeth o gynrychioliad mewn perthynas â genre a chynulleidfa darged • Dylai dewis genre ddefnyddio dealltwriaeth sefydliadol am E4 a'i gynhyrchion
Opsiwn 2 (unigol neu bâr)	Gofynion y Dasg	Manylion
Cynhyrchwch ddilyniant agoriadol rhaglen deledu newydd mewn genre o'ch dewis ar gyfer BBC1 Dylai'r rhaglen dargedu cynulleidfa o oedolion rhwng 25 a 34 mlwydd oed .	Dilyniant agoriadol cyflawn	• 3 – 4 munud mewn hyd (unigol) • 4 – 5 munud mewn hyd (pâr) • Cymhwyso dealltwriaeth o gynrychioliad o un grŵp penodol o leiaf (rhywedd, ethnigrwydd neu oedran), man neu ddigwyddiad • Cymhwyso dealltwriaeth o gynrychioliad mewn perthynas â genre a chynulleidfa darged • Dylai dewis genre ddefnyddio dealltwriaeth sefydliadol am BBC a'i gynhyrchion
YN OGYSTAL ag un o'r opsiynau canlynol (i'w cwblhau'n unigol):		
Opsiwn A	Gofynion y Dasg	Manylion
Cynhyrchwch ymgyrch hysbysebu ar-lein ar gyfer eich rhaglen deledu	3 hysbyseb ar y we: 1 bwrdd arwain 1 pennawd Hysbyseb fideo 15 - 20 i'w ddarlledu ar YouTube	• 3 delwedd wreiddiol o leiaf ar draws yr ymgyrch, gan gynnwys logo rhaglen deledu • Mesuriadau'r pennawd: 160 pixel o led x 600 pixels o uchder • Mesuriadau bwrdd arwain: 728 pixel o led x 90 pixels o uchder • Gallai hysbyseb YouTube gynnwys darn o'ch cynhyrchiad delwedd symudol • Defnyddiwch ddealltwriaeth o gynrychioliad mewn perthynas â genre a chynulleidfa darged

NEU		
Opsiwn B	Gofynion y Dasg	Manylion
Cynhyrchwch gylchgrawn TV Guide sy'n marchnata eich rhaglen deledu	3 tudalen: Tudalen flaen Erthygl tudalen ddwbl (cyfrif fel dwy dudalen)	- O leiaf 5 delwedd wreiddiol ar draws y cylchgrawn – gall hyd at 3 delwedd fod yn luniau llonydd o'ch cynhyrchiad delwedd symudol. - Gallwch ddefnyddio brand a/neu dempled TV Guide sy'n bodoli eisoes ar gyfer eich cynhyrchion (h.y. Radio Times, TV Times) - Cymhwyso dealltwriaeth o gynrychioliad mewn perthynas â genre a chynulleidfa darged

Briff 2: Cylchgronau		
Mae'n rhaid i ymgeiswyr ddewis un o'r opsiynau canlynol:		
Opsiwn 1 (unigolyn)	Gofynion y Dasg	Manylion
Cynhyrchwch gylchgrawn newydd yn y brif ffrwd ar gyfer un o'r prif gyhoeddwr cylchgronau (e.e. Bauer Media neu Conde Nast) Dylai'r cylchgrawn dargedu cynulleidfa o oedolion proffesiynol ifanc rhwng 18 a 30 mlwydd oed.	4 tudalen: Tudalen flaen Tudalen Gynnwys Erthygl tudalen ddwbl (cyfrif fel dwy dudalen)	- Dylunio a chynnwys logo/teitl gwreiddiol 8 delwedd wreiddiol o leiaf ar draws y cylchgrawn - Cyfrif geiriau o 750 o leiaf ar draws yr erthygl tudalen ddwbl - Cymhwyso dealltwriaeth o gynrychioliad o un grŵp penodol o leiaf (rhywedd, ethnigrwydd neu oedran), man neu ddigwyddiad - Cymhwyso dealltwriaeth o gynrychioliad mewn perthynas â genre a chynulleidfa darged - Dylai dewis genre ddefnyddio dealltwriaeth sefydliadol am y cyhoeddwr prif ffrwd o ddewis a'i gynhyrchion
Opsiwn 2 (unigolyn)	Gofynion y Dasg	Manylion
Cynhyrchwch gylchgrawn arbenigol (niche) newydd ar gyfer cyhoeddwr cylchgronau annibynnol / arbenigol (e.e. TCOLondon neu Dennis Publishing) Dylai'r cylchgrawn dargedu cynulleidfa o oedolion proffesiynol ifanc rhwng 18 a 30 mlwydd oed.	4 tudalen: Tudalen flaen Tudalen Gynnwys Erthygl tudalen ddwbl (cyfrif fel dwy dudalen)	- Dylunio a chynnwys logo/teitl gwreiddiol 8 delwedd wreiddiol o leiaf ar draws y cylchgrawn - Cyfrif geiriau o 750 o leiaf ar draws yr erthygl tudalen ddwbl - Cymhwyso dealltwriaeth o gynrychioliad o un grŵp penodol o leiaf (rhywedd, ethnigrwydd neu oedran), man neu ddigwyddiad - Cymhwyso dealltwriaeth o gynrychioliad mewn perthynas â genre o ddewis a chynulleidfa darged - Dylai dewis genre ddefnyddio dealltwriaeth sefydliadol am y cyhoeddwr cylchgronau annibynnol/arbenigol o ddewis a'i gynhyrchion

YN OGYSTAL ag un o'r opsiynau canlynol (i'w cwblhau'n unigol):		
Opsiwn A	Gofynion y Dasg	Manylion
Cynhyrchwch ymgyrch hysbysebu ar-lein ar gyfer eich cylchgrawn newydd	3 hysbyseb ar y we: 1 bwrdd arwain 1 pennawd 1 hysbyseb fideo 15-20 eiliad i'w ddarlledu ar YouTube	• 3 delwedd wreiddiol o leiaf ar draws yr ymgyrch, gan gynnwys teitl y cylchgrawn • Gallai hysbyseb YouTube gynnwys darn o'ch cynhyrchiad • Defnyddiwch ddealltwriaeth o gynrychioliad mewn perthynas â genre a chynulleidfa darged
NEU		
Opsiwn B	Gofynion y Dasg	Manylion
Cynhyrchwch 30 eiliad o ddeunydd clyweledol i hyrwyddo lansiad eich cylchgrawn drwy lwyfan cyfryngau cymdeithasol priodol (e.e. Facebook neu Instagram)	Hysbyseb 30 eiliad y mae'n rhaid iddo fod â chynnwys fideo a sain	• Gallai'r hysbyseb gynnwys teitl cylchgrawn a delweddau eraill o gynhyrchiad print • Cymhwyso dealltwriaeth o gynrychioliad mewn perthynas â genre a chynulleidfa darged

Dadansoddiad Beirniadol

Bydd dysgwyr yn dadansoddi ac yn gwerthuso eu cynhyrchiad mewn **650 i 850 o eiriau**. Bydd y dadansoddiad beirniadol hwn yn canolbwyntio ar sut mae'r cysyniad cyfryngau mae'r dysgwr wedi'i ddewis yn cael ei adlewyrchu yn eu cynhyrchiad ar gyfer gwahanol gyfryngau, a bydd yn cyfeirio at rhai safbwyntiau beirniadol. Bydd y dadansoddiad beirniadol yn cynnwys:

- sut y defnyddiwyd un cysyniad allweddol yn y cynhyrchiad a'r rhesymau dros y dull a ddefnyddiwyd
- cyfeiriad at safbwyntiau damcaniaethol perthnasol sy'n ymwneud â'u cysyniad allweddol o ddewis
- cyfeiriad at sut mae agweddau allweddol ar y cynhyrchiad yn bodloni gofynion y diwydiant a'r gynulleidfa ar gyfer y briff.

Gellir defnyddio cyfuniad o ryddiaith barhaus a phwyntiau bwled â ffocws. Anogir dysgwyr i ddethol ac i ganolbwyntio ar elfennau allweddol eu cynhyrchiad.

Gofynion eraill

Cynhyrchiad annibynnol a chydweithredol

Mae'n rhaid i'r holl gynrychiadau fod yn unigol ac eithrio cynrychiadau clyweledol. Ar gyfer **cynrychiadau clyweledol**, gall dysgwyr weithio **yn unigol** neu mewn **parau** mewn rolau wedi'u nodi'n glir: **bydd un dysgwr yn gyfrifol am y gwaith camera a bydd y dysgwr arall yn gyfrifol am olygu, gan gynnwys sain**. Hefyd bydd pob dysgwr yn gyfrifol am ddatblygu'r cysyniad maen nhw wedi ymchwilio iddo yn y cynhyrchiad. Mae'n rhaid i bob dysgwr fod yn gyfrifol am sicrhau fod yr agweddau ar genre, naratif neu gynrychioliad maen nhw am eu datblygu yn sail i'w cynhyrchiad. Yn ogystal â hynny, gall cynorthwyywyr nad ydynt yn cael eu hasesu weithredu'r offer goleuo a sain os oes angen sain a goleuo annibynnol, a hynny dan gyfarwyddyd y dysgwr(dysgwyr) sy'n cael eu hasesu. Gall cynorthwyywyr eraill nad ydynt yn cael eu hasesu ymddangos mewn cynrychiadau, er enghraifft fel actorion neu fodelau.

Deunydd gwreiddiol a deunydd nad yw'n wreiddiol

Mae gofyn i ddysgwyr greu deunydd gwreiddiol ar gyfer y cynhyrchiad ei hun, er y gellir defnyddio deunydd y cafwyd hyd iddo yn y broses gynllunio. Mewn rhai amgylchiadau, gallai fod yn hanfodol cynnwys delweddau neu recordiadau nad ydynt yn wreiddiol, y cafwyd hyd iddynt, er enghraifft lle mae confensiynau'r genre yn cynnwys defnyddio'r deunydd y cafwyd hyd iddo (e.e. rhaglen ddogfen yn defnyddio recordiad o'r archif) neu lle y byddai'n amhosibl neu'n anymarferol cynhyrchu delwedd neu recordiad (e.e. saethiad o ffrwydrad neu leoliad cefndir o'r anialwch). Mewn achosion o'r fath, gellir defnyddio deunydd y cafwyd hyd iddo cyhyd â nad hwn yw prif ffocws y cynnyrch (h.y., cefnogi'r prif ffocws yn unig mae recordiadau a delweddau y cafwyd hyd iddynt yn unig). Mae defnyddio delweddau neu recordiad nad yw'n wreiddiol wedi'i gyfyngu i:

- 30 eiliad o recordiad y cafwyd hyd iddo mewn cynnyrch clyweledol neu gynnyrch ar-lein
- 1 ddelwedd gefndirol y cafwyd hyd iddi fesul tudalen o argraffu neu gynnyrch ar-lein.

Ni ellir asesu delweddau a recordiadau nad ydynt yn wreiddiol - gellir gwobrwyo dysgwyr am **ddewis** delweddau neu recordiad priodol, ond nid am **greu** r ddelwedd neu'r recordiad. Mewn cynhyrchion print, fel cefndir yn unig y dylid defnyddio delweddau y cafwyd hyd iddynt; mewn cynhyrchion clyweledol mae'n rhaid i recordiad y cafwyd hyd iddo fod yn ychwanegol at y terfyn amser (e.e. gallai cynhyrchiad teledu 2 funud o hyd gael 30 eiliad o recordiad y cafwyd hyd iddo, sef cyfanswm o 2 funud, 30 eiliad). **Marciau hyd at ben uchaf band 1 yn y meini prawf marcio yn unig y gellir eu dyfarnu i ymgeiswyr nad ydynt yn defnyddio recordiad, delweddau neu destun gwreiddiol ar gyfer y rhan fwyaf o'u cynhyrchiad.**

Deunydd â hawlfraint

Cyfrifoldeb y canolfannau yw sicrhau nad yw dysgwyr yn torri cyfyngiadau hawlfraint.

- Ar gyfer cynhyrchiadau hysbysebu neu farchnata, ni ellir defnyddio cynhyrchion neu ffilmiau sy'n bodoli'n barod.
- Cyfrifoldeb y ganolfan a'r dysgwr yw'r defnydd o unrhyw ddeunydd y cafwyd hyd iddo.

Yn yr un modd, at ddibenion asesiad yr arholiad yn unig, mae sefydliadau cyfredol wedi cael eu defnyddio i roi cyd-destun diwydiant clir i rai briffiau cynhyrchiad.

Offer/Meddalwedd

Mae angen i ddysgwyr allu manteisio ar offer ac adnoddau addas ar gyfer eu gwaith cynhyrchu.

Ar gyfer gwaith clyweledol, argymhellir defnyddio camerâu digidol a meddalwedd golygu digidol. Caniateir defnyddio ffonau symudol ar gyfer cynhyrchiadau os ydynt wedi'u gosod ar drybedd. Nid yw offer sain a golau annibynnol yn angenrheidiol ond gellir eu defnyddio.

Mae'n rhaid rhestru'r pecynnau meddalwedd a ddefnyddir wrth greu'r cynhyrchiad y cyfryngau ar y dudalen flaen gydag eglurhad byr o sut maent wedi cael eu defnyddio. Bydd yr aseswr yn ystyried y wybodaeth hon wrth farcio pob cynhyrchiad. Ni fwriedir i ddysgwyr greu gwefan gan ddefnyddio cod. Fodd bynnag, dylent fod yn gyfrifol am ddylunio'r wefan a dylent ddefnyddio templedi plaen. Lle mae gorddibyniaeth wedi bod ar dempledi sy'n bodoli'n barod, bydd hyn yn arwain at ddyfarnu marc is.

Asesu Uned 4

Asesir Uned 4 yn fewnol a'i safoni'n allanol gan ddefnyddio'r gridiau asesu atodol yn Atodiad C y fanyleb hon. 80 yw cyfanswm y marciau sydd ar gael, sy'n cael eu dyrannu fel a ganlyn:

- **ymchwil** i un cynnyrch cymaradwy gyda'r cynhyrchiad a **datblygu** (30 marc, AA3)
- **cynhyrchiad** (40 marc, AA3)
- **dadansoddiad beirniadol** (10 marc, AA2).

Mae'n rhaid i athrawon ddefnyddio'r grid asesu a'r canllawiau a ddarperir yn Atodiad C wrth gynnal asesiad mewnol Uned 4. Cawsant eu llunio er mwyn cysylltu'r amcanion asesu â marciau a helpu i wahaniaethu'n glir rhwng yr amrywiol lefelau cyflawniad. Bydd y cynlluniau marcio o'r gwerth mwyaf pan fyddant yn cael eu defnyddio ar y cyd â'r canllawiau ac enghreifftiau o waith wedi'u hasesu, y bydd CBAC yn eu darparu er mwyn helpu canolfannau i nodi ansawdd y gwaith sy'n gysylltiedig â'r bandiau marcio amrywiol.

Gweler adran 3.2 i gael manylion pellach ar:

- yr amodau ar gyfer cwblhau'r cynhyrchiad
- tystiolaeth asesu a dilysu
- llên-ladrad a chamymddwyn honedig
- safoni a chyflwyno marciau.

3 ASESU

3.1 Amcanion asesu a phwysoli

Mae amcanion asesu'r fanyleb hon wedi'u rhoi isod. Rhaid i'r dysgwyr:

AA1

Arddangos gwybodaeth a dealltwriaeth o:

- gysyniadau allweddol a safbwyntiau beirniadol cyfryngau: ac
- ar U2, cyd-destunau cyfryngau a'u dylanwad ar gynhyrchion a phrosesau'r cyfryngau

AA2

Cymhwyso gwybodaeth a dealltwriaeth am gysyniadau allweddol astudio'r cyfryngau i:

- ddadansoddi cynhyrchion y cyfryngau, ac ar U2, mewn perthynas â'u cyd-destun, defnyddio safbwyntiau beirniadol fel sy'n briodol;
- gwerthuso eu gwaith ymarferol eu hunain.

AA3

Ymchwilio, datblygu a chreu cynhyrchion y cyfryngau ar gyfer cynulleidfa arfaethedig, gan ddefnyddio gwybodaeth a dealltwriaeth am gysyniadau allweddol astudio'r cyfryngau.

Dangosir pwysoli'r amcanion asesu isod fel canran o'r Safon Uwch lawn, mae pwysoli'r UG mewn cromfachau.

	AA1	AA2	AA3	Cyfanswm
Uned 1	12% (30%)	12% (30%)	-	24%
Uned 2	-	2% (5%)	14% (35%)	16%
Uned 3	18%	18%	-	36%
Uned 4		3%	21%	24%
Pwysoli cyffredinol	30%	35%	35%	100%

3.2 Trefniadau ar gyfer asesu di-arholiad

Amodau ar gyfer cwblhau'r cynhyrchiad

Gall y cynhyrchiad gael ei gwblhau a'i asesu ar unrhyw adeg addas yn ystod y cwrs. Argymhellir fod dysgwyr yn cwblhau eu cynhyrchiad UG o fewn cyfnod amser cyfnod o tua **32 i 40 awr** a'u cynhyrchiad Safon Uwch ar gyfer cyfryngau gwahanol gyda chyfnod o tua **40 i 48 awr** er mwyn galluogi cydbwysedd priodol rhwng gwaith ar gyfer y cynhyrchiad a'r unedau arholiad.

Hyd/cyfanswm y gwaith

- Bydd gofynion penodol o ran hyd neu gyfanswm y gwaith yn cael ei ddarparu yn y briff bob blwyddyn.
- Nid oes cosb am waith sydd yn llai na'r terfynau amser a hyd a nodwyd, gan ei fod yn debygol o fod yn hunan-gosbi. Mae goddefiant o 10% ar gyfer gwaith sydd dros y terfynau amser a hyd a nodwyd. Os yw cynhyrchiad o fwy na'r terfynau o dros 10%, ni ddylai'r athro/aseswr farcio'r gwaith ychwanegol a gyflwynwyd y tu hwnt i'r terfyn hwn, gan mai am y gwaith sydd yn y terfynau amser a hyd a nodwyd yn unig y gellir gwobrwo ymgeiswyr.

Goruchwylio a Monitro

- Dylai canolfannau ddilyn y canllawiau ar gyfer lleiafswm ac uchafswm yr oriau bydd dysgwyr yn eu treulio ar ddatblygu a chreu eu cynhyrchiad ar gyfer Uned 2 ac Uned 4.
- Gall athrawon gynnig arweiniad a chefnogaeth i ddysgwyr er mwyn sicrhau bod ganddynt ddealltwriaeth glir o ofynion y briff a osodwyd, gan gynnwys y grid asesu a marcio.
- Gall athrawon gynghori dysgwyr ar friff priodol neu ffurf y cyfryngau i'w ddewis.
- Ar ôl cychwyn ar y gwaith, rhaid cyfyngu unrhyw adborth i gynnig cyngor cyffredinol ar yr hyn i'w wella. Ni ddylai athrawon roi arweiniad penodol ar sut i wneud y gwelliannau hyn. Er y gellir rhoi cefnogaeth dechnegol ar sut i ddefnyddio offer ac lechyd a Diogelwch, ni chaniateir cyngor yn ymwneud ag elfennau fel apel i'r gynulleidfa arfaethedig neu ddefnyddio gwybodaeth a dealltwriaeth o iaith y cyfryngau a chynrychioliad.
- Yn ystod y cyfnod gweithio, mae'n rhaid i athrawon fonitro cynnydd y cynhyrchiad deirgwaith er mwyn gallu dilysu'r gwaith fel gwaith y dysgwr ei hun.
- Ar ôl i'w gwaith gael ei wneud a'i asesu'n derfynol, ni ellir gwneud unrhyw newidiadau pellach i'r gwaith.

Tystiolaeth Asesu a Dilysu

Mae'n bwysig bod gwaith asesu'n cael ei fonitro'n drwyadl gan ganolfannau er mwyn sicrhau mai gwaith y dysgwyr eu hunain ydyw. Mae gofyn i bob dysgwr lofnodi dogfen ddilysu ar y dudalen flaen sy'n cadarnhau mai ei gwaith nhw eu hunain yw'r gwaith a rhaid i'r canolfannau lofnodi i gadarnhau eu bod wedi cymryd pob cam rhesymol i ddilysu hyn. Mae'n rhaid i bawb gwblhau'r dogfennau dilysu, nid y rhai sy'n cael eu dewis ar gyfer y sampl i'w weld gan y safonwr yn unig.

Rhaid i bob dysgwr gynhyrchu a chyflwyno'r canlynol:

1. Tudalen flaen

Bydd yr athro a'r dysgwr yn arwyddo datganiad dilysu sydd wedi'i gynnwys ar y dudalen flaen.

2. Cynhyrchiad y cyfryngau (gan gynnwys ymchwil, cynllunio a dadansoddi myfyriol ar gyfer UG ac ymchwil ymchwiliol, datblygu a dadansoddi beirniadol ar gyfer Safon Uwch)

Bydd pedair elfen cynhyrchiad y cyfryngau i gyd yn cael eu cyflwyno:

1. **UG:** ymchwil, cynllunio, cynhyrchu a dadansoddi myfyriol
2. **Safon Uwch:** ymchwil ymchwiliol, datblygu, cynhyrchu a dadansoddi beirniadol.

Noder: mae'n rhaid i ddysgwyr nodi holl elfennau o'u gwaith cynhyrchu yn glir gyda'u henw, rhif ymgeisydd, enw'r ganolfan a rhif y ganolfan.

Mae'n rhaid i'r holl eitemau uchod fod ar gael i'w safoni ac mae'n rhaid cyflwyno gwaith y cynhyrchiad i'r safonwr yn y ffurfiau canlynol:

- deunydd clyweled - wedi'i lwytho i fyny fel e-bortffolio drwy wefan ddiogel CBAC yn un o'r ffurfiau canlynol: MP4, .MOV neu .AVI
- deunydd seiliedig ar brint - wedi'i lwytho i fyny fel e-bortffolio drwy wefan ddiogel CBAC yn un o'r ffurfiau canlynol: PDF, JPEG
- deunydd ar-lein – mae'n rhaid i wefannau fod ar gael ar-lein am gyfnod cyfan y cymedroli a hyd at fis Rhagfyr yn y flwyddyn galendr y safwyd yr asesiad. Rhaid profi pob cyswllt i gadarnhau ei fod yn gweithio. Rhaid rhoi'r URL (cyfeiriad gwe) i'r cymedrolwr ar y daflen glawr a gyflwynir gyda'r gwaith. **Cyfrifoldeb y ganolfan yw sicrhau bod pob gwefan a gyhoeddir ar-lein yn cyfateb i reoliadau GDPR, a bod mesurau priodol wedi'u dilyn i ddiogelu hunaniaeth dysgwyr a chyfranogwyr heb eu hasesu.**

Llên-ladrad a chamymddwyn honedig

Dylai dysgwyr fod yn ymwybodol o'r canlynol:

- cyfrifoldeb cychwynnol y ganolfan yw unrhyw achosion o lôn-ladrad neu gamymddwyn honedig
- os bydd y ganolfan neu'r broses safoni yn datguddio unrhyw achos o gamymddwyn neu lôn-ladrad honedig, bydd ymchwiliad ffurfiol yn cael ei gynnal, gan ddilyn gweithdrefnau'r Cyd-gyngor Cymwysterau
- gellir tynnu'r marciau naill ai am yr uned neu'r cymhwyster cyfan yn ôl os gwelir fod camymddwyn neu lôn-ladrad wedi digwydd.

Safoni a chyflwyno marciau

- Mae angen i ganolfannau gyflwyno marciau ar-lein erbyn y dyddiad a nodwyd ym mis Mai bob blwyddyn. Bydd sampl safoni yn seiliedig ar drefn gyffredinol y cofrestrriad cyfan yn cael ei gynhyrchu'n awtomatig pan fydd marciau'n cael eu cyflwyno, ac mae'n rhaid anfon y sampl at y safonwr i gyrraedd erbyn y dyddiad a nodwyd ym mis Mai bob blwyddyn.
- Y ganolfan sy'n pennu'r dyddiad cwblhau mewnol a rhaid i'r ganolfan ystyried yr amser sydd ei angen ar gyfer asesiad mewnol, safoni mewnol a chyflwyno marciau i CBAC.
- Defnyddir tudalennau blaen unigol, sydd ar gael ar wefan CBAC, ar gyfer cofnodi marciau i'w hanfon i'r safonwr. Rhaid i'r canolfannau gadw copïau o bob taflen farciau a anfonwyd at y safonwr.
- Os oes mwy nag un athro mewn canolfan, mae'n hanfodol bod gwaith o bob grŵp addysgu'n cael ei gymedroli'n fewnol. Dilyniir y drefn hon er mwyn sicrhau bod yr asesiad terfynol yn adlewyrchu un safon gytunedig ar gyfer pob grŵp addysgu o dan sylw.
- Mae'n rhaid i'r holl waith a dogfennau cysylltiedig ar gyfer dysgwyr yn y sampl gael eu cyflwyno i'r safonwr erbyn y dyddiad penodol ym mis Mai.
- Mae'r holl ddogfennau angenrheidiol i'w cael ar wefan CBAC.
- O ganlyniad i'r safoni allanol, gall marciau dysgwyr gael eu haddasu fel bod marciau'r ganolfan yn unol â'r safon genedlaethol. Os bydd angen, bydd y safonwr yn gofyn am samplau ychwanegol o waith ac, os bydd angen, gellir gofyn am waith pob dysgwr a safoni gwaith pob un ni waeth beth fo nifer yr ymgeiswyr. Yn yr achos hwn, anfonir y gwaith i gyd at y safonwr.
- Bydd pob canolfan yn derbyn adborth manwl am y safoni ym mis Awst.
- Dylai pob darn o waith nad yw'n cael ei gyflwyno i CBAC gael ei gadw gan y ganolfan tan ddiwedd mis Hydref y flwyddyn ardystio

4 GWYBODAETH DECHNEGOL

4.1 Cofrestru

Manyleb unedol yw hon sy'n caniatáu am elfen o asesu mewn camau.

Bydd cyfleoedd asesu ar gael yn ystod cyfnod asesu'r haf bob blwyddyn, tan ddiwedd oes y fanyleb hon.

Bydd Uned 1 ac Uned 2 ar gael yn 2018 (a phob blwyddyn wedi hynny) a dyfernir y cymhwyster UG am y tro cyntaf yn haf 2018.

Bydd Uned 3 ac Uned 4 ar gael yn 2019 (a phob blwyddyn wedi hynny) a dyfernir y cymhwyster Safon Uwch am y tro cyntaf yn haf 2019.

Gellir sefyll cymhwyster fwy nag unwaith. Fodd bynnag, os yw ymgeisydd wedi rhoi cynnig ar unrhyw uned ddwywaith a'i fod yn dymuno cofrestru am y trydydd tro, yna bydd rhaid i'r ymgeisydd ail-gofrestru am bob uned a'r cyfnewid priodol. Cyfeirir at hyn fel 'dechrau o'r newydd'. Pan gaiff cymhwyster ei ailgymryd (dechrau o'r newydd), gall ymgeisydd roi hyd at ddau gynnig arall ar bob uned. Fodd bynnag, ni ellir defnyddio canlyniadau o unedau a safwyd cyn dechrau o'r newydd wrth agregu'r radd (graddau) newydd.

Gellir trosglwyddo marciau unedau asesu di-arholiad dros gyfnod oes y fanyleb.

Os cofrestrwyd ymgeisydd am uned ond ei fod yn absennol am yr uned honno, nid yw'r absenoldeb yn cyfrif fel ymgais. Fodd bynnag, byddai'r ymgeisydd yn cael ei ddisgrifio fel ymgeisydd ailsefyll.

Nodir y codau cofrestru isod.

	Teitl	Codau cofrestru	
		Cyfrwng Saesneg	Cyfrwng Cymraeg
UG Uned 1	Ymchwilio i'r Cyfryngau	2680U1	2680N1
UG Uned 2	Creu Cynhyrchiad y Cyfryngau	2680U2	2680N2
U2 Uned 3	Y Cyfryngau yn yr Oes Fyd-eang	1680U3	1680N3
U2 Uned 4	Creu Cynhyrchiad ar gyfer Gwahanol Gyfryngau	1680U4	1680N4
Cyfnewid Astudio'r Cyfryngau UG		2680QS	2680CS
Cyfnewid Astudio'r Cyfryngau Safon Uwch		1680QS	1680CS

Mae rhifyn cyfredol ein dogfen *Dulliau Cofrestru a Gwybodaeth am y Codau* yn rhoi'r dulliau cofrestru diweddaraf.

Nid oes unrhyw gyfyngiad ar gofrestru am y fanyleb hon ynghyd ag unrhyw fanyleb UG neu Safon Uwch arall CBAC.

4.2 Graddio, dyfarnu ac adrodd yn ôl

Bydd y graddau cyffredinol ar gyfer y cymhwyster TAG UG yn cael eu cofnodi fel gradd ar y raddfa A i E. Bydd y graddau cyffredinol ar gyfer y cymhwyster TAG Safon Uwch yn cael eu cofnodi fel gradd ar y raddfa A* i E. Bydd y canlyniadau sy'n methu â chyrraedd y safon isaf ar gyfer y dyfarniad yn cael eu dangos fel U (annosbarthedig). Defnyddir llythyren fach a i e i ddangos graddau unedau ar slipiau canlyniadau ond nid ar y tystysgrifau.

Defnyddir y Raddfa Marciau Unffurf (GMU) mewn manylebau unedol fel ffordd o adrodd, cofnodi a chyfansymio canlyniadau asesiadau uned ymgeiswyr. Mae'r GMU yn cael ei defnyddio fel y bydd ymgeiswyr sy'n cyrraedd yr un safon yn cael yr un marc unffurf, pryd bynnag y cymerwyd yr uned. Bydd canlyniadau unedau unigol a'r dyfarniad pwnc cyffredinol yn cael eu mynegi fel marc unffurf ar raddfa sy'n gyffredin i bob cymhwyster TAG. Mae cyfanswm o 200 marc unffurf i'r TAG UG a chyfanswm o 500 marc unffurf i'r TAG Safon Uwch. Mae cyfanswm marciau unffurf unrhyw uned yn dibynnu ar y pwysoli am yr uned honno yn y fanyleb.

Mae marciau unffurf yn cyfateb i raddau uned fel a ganlyn:

Pwysoliad yr Uned	Uchafswm marciau unffurf uned	Gradd Uned				
		a	b	c	d	e
Uned 1 (24%)	120	96	84	72	60	48
Uned 2 (16%)	80	64	56	48	40	32
Uned 3 (36%)	180	144	126	108	90	72
Uned 4 (24%)	120	96	84	72	60	48

Mae'r marciau unffurf a enillwyd am bob uned yn cael eu hadio at ei gilydd a'r radd am y pwnc yn cael ei seilio ar y cyfanswm hwn.

	Uchafswm marciau unffurf	Gradd y cymhwyster				
		A	B	C	D	E
TAG UG	200	160	140	120	100	80
TAG Safon Uwch	500	400	350	300	250	200

Yn yr Uwch, dyfernir Gradd A* i ymgeiswyr sydd wedi ennill Gradd A (400 marc unffurf) yn y cymhwyster Safon Uwch cyffredinol ac o leiaf 90% o gyfanswm y marciau unffurf ar gyfer yr unedau U2 (270 marc unffurf).

ATODIAD A

Crynodeb o Safbwyntiau Beirniadol i'w hastudio

IAITH Y CYFRYNGAU

Semioteg – Roland Barthes

- y syniad fod testunau yn cyfleu eu hystyron drwy broses o arwyddocâd
- y syniad y gall arwyddion weithredu ar lefel dynodiad, sy'n cynnwys ystyr 'llythrennol' neu ystyr synnwyr cyffredin yr arwydd, ac ar lefel yr arwyddocâd, sydd yn cynnwys ystyron sy'n ymwneud â'r arwydd, neu a awgrymir gan yr arwydd
- y syniad y gallai ystyron wedi'u creu ymddangos yn hunanamlwg, gan gyflawni statws myth drwy broses o frodori.

Naratiffiaeth – Tzvetan Todorov

- y syniad fod pob naratif yn rhannu strwythur sylfaenol sy'n cynnwys symud o un cyflwr ecwilibriwm i un arall
- y syniad fod y ddau gyflwr hyn o ecwilibriwm wedi'u gwahanu gan gyfnod anghydbwysedd neu ddad-ecwilibriwm
- y syniad y gallai'r ffordd mae naratifau'n cael eu datrys fod ag arwyddocâd ideolegol.

Damcaniaeth genre – Steve Neale

- y syniad y gallai genre gael ei ddominyddu gan ail-adrodd, ond hefyd wedi'u nodwedd gan wahaniaeth, amrywiaeth, a newid
- y syniad fod genres yn newid, datblygu, ac amrywio, wrth iddynt fenthycu gan y naill a'r llall, a gorgyffwrdd
- y syniad fod genres yn bodoli mewn cyd-destunau economaidd, sefydliadaol a diwydiannol penodol.

Strwythuriaeth – Claude Lévi-Strauss

- y syniad mai'r ffordd orau o ddeall testunau yw drwy archwilio'r strwythur sylfaenol
- y syniad fod ystyr yn dibynnu ar barau o wrthwynebiadau (ac yn cael eu cynhyrchu drwy'r rhain)
- y syniad y gallai'r ffordd mae gwrthwynebiadau deuol hyn yn cael eu datrys fod ag arwyddocâd ideolegol.

Ôl-foderniaeth – Jean Baudrillard

- y syniad fod y ffiniau rhwng y byd 'go iawn' a byd y cyfryngau wedi dymchwel mewn diwylliant ôl-fodernaidd ac nad yw'n bosibl gwahaniaethu rhwng realaeth ac efelychiad bellach
- y syniad ein bod wedi ymgolli mewn byd o ddelweddau nad ydynt yn cyfeirio bellach at unrhyw beth sy'n 'real' mewn oes o efelychiad ôl-fodernaidd
- y syniad fod delweddau'r cyfryngau wedi dod yn fwy 'real' na'r realiti y maent i fod i'w cynrychioli (gor-realaeth).

CYNRYCHIOLIAD***Safbwyntiau beirniadol ar gynrychioliad, gan gynnwys ethnigrwydd – Stuart Hall***

- y syniad mai cynrychioliad yw cynhyrchiad ystyr drwy iaith, gyda'r iaith wedi'i diffinio yn ei synnwyr mwyaf eang fel system o arwyddion
- y syniad fod y berthynas rhwng cysyniadau ac arwyddion yn cael ei llywodraethu gan godau
- y syniad fod stereoteipio, fel math o gynrychioliad, yn lleihau pobl i ychydig o nodweddion neu dueddiadau syml
- y syniad fod stereoteipio yn dueddol o ddigwydd lle mae anghydraddoldebau pŵer, gan fod grwpiau israddol neu eithriedig yn cael eu creu fel grwpiau gwahanol neu 'eraill' (e.e. drwy ethnosenigrwydd).

Safbwyntiau beirniadol ar hunaniaeth – David Gauntlett

- y syniad fod y cyfryngau'n rhoi 'teclynnau' neu adnoddau i ni i'w defnyddio i adeiladu ein hunaniaeth
- y syniad bod y cyfryngau heddiw yn cynnig amrywiaeth mwy eang o sêr, eiconau a chymeriadau i ddewis a chymysgu syniadau ohonynt, lle'r oedd y cyfryngau yn dueddol o gyfleu negeseuon syml, unigol am fathau delfrydol o hunaniaeth fenywaidd a gwrywaidd yn y gorffennol

Safbwyntiau beirniadol ar rywedd – Liesbet van Zoonen

- y syniad fod rhywedd yn cael ei greu drwy fynegiant, a bod ei ystyr yn amrywio yn unol â chyd-destun hanesyddol a diwylliannol
- y syniad fod arddangos cyrff merched fel gwrthrych i edrych arnynt yn elfen graidd o ddiwylliant patriarchaidd gorllewinol
- y syniad fod y codau gweledol a naratif a ddefnyddir mewn diwylliant prif ffrwd i greu'r corff gwrywaidd fel golygfa yn wahanol i'r rhai a defnyddio i greu'r corff benywaidd yn wrthrych.

Safbwyntiau beirniadol ar rywedd ac ethnigrwydd – bell hooks

- y syniad mai ffeministiaeth yw'r frwydr i ddod â gorthrwm rhywiaethol/patriarchaidd a'r ideoleg o ddominyddu i ben
- y syniad fod ffeministiaeth yn ymroddiad gwleidyddol yn hytrach na dewis ffordd o fyw
- y syniad fod tras a dosbarth yn ogystal â rhyw yn pennu i ba raddau mae unigolion yn cael eu hecsbloetio, gwahaniaethu yn eu herbyn neu eu gormesu.

CYNULLEIDFAOEDD***Effeithiau'r cyfryngau – Albert Bandura***

- y syniad y gall y cyfryngau blannu syniadau ym meddwl y gynulleidfa yn uniongyrchol
- y syniad fod cynulleidfaoedd yn meithrin agweddau, ymatebion emosiynol ac arddulliau newydd o ymddwyn drwy fodelu
- y syniad fod cynrychioliadau a wnaed o ymddygiad troseddol, fel trais neu ymosod corfforol, yn gallu arwain aelodau i efelychu'r ffyrdd hynny o ymddwyn.

Damcaniaeth diwylliant – George Gerbner

- y syniad y gallai amlygiad i batrymau ailadroddus o gynrychioliad dros gyfnodau hir o amser siapio a dylanwadu ar y ffordd mae pobl yn ystyried y byd o'u hamgylch (e.e. meithrin barn neu safbwyntiau penodol)
- y syniad fod meithrin yn atgyfnerthu gwerthoedd prif ffrwd (ideolegau dominyddol).

Damcaniaeth derbyn – Stuart Hall

- y syniad fod cyfathrebu yn broses sy'n cynnwys amgodio gan gynhyrchwyr a dadgodio gan gynulleidfaoedd
- y syniad y gellir dadgodio ystyron a negeseuon o dri safle damcaniaethol:
 - y safle hegemonig-domiynyddol: deallir yr ystyr a fwriedir gan yr amgodiwr (y dehongliad dewisol) yn llawn ac mae'n cael ei dderbyn
 - y safle wedi'i negodi: mae cyfreithlondeb neges yr amgodiwr yn cael ei gydnabod mewn termau cyffredinol, er bod y neges yn cael ei haddasu neu ei negydu i weddu i brofiadau neu gyd-destun unigol y dadgodiwr ei hun
 - y safle gwrthwynebol: deallir neges yr amgodiwr, ond mae'r dadgodiwr yn anghytuno gydag o, gan ei ddehongli mewn ffordd wahanol neu wrthwynebol.

Dilynwyr – Henry Jenkins

- y syniad fod dilynwyr yn cymryd rhan weithredol wrth greu a chylchredeg ystyron testunol
- y syniad fod dilynwyr yn darllen testunau priodol mewn ffyrdd nad ydynt wedi'u hawdurdodi gan gynhyrchwyr y cyfryngau ('potsian testunol')
- y syniad fod dilynwyr yn creu eu hunaniaethau diwylliannol a chymdeithasol eu hunain drwy fenthylg ffurfdroi delweddau diwylliannol màs, a'u bod yn rhan o ddiwylliant sy'n cymryd rhan a chanddi ddimensiwn cymdeithasol hanfodol.

'End of Audience' – Clay Shirky

- y syniad bod gan y Rhynggrwyd a thechnolegau digidol effaith ddifrifol ar y perthnasau rhwng y cyfryngau ac unigolion
- y syniad nad yw cysyniadoli aelodau cynulledifa fel defnyddwyr goddefol cynnwys cyfryngau torfol yn bosibl ddim mwy yn oes y Rhynggrwyd, gan fod defnyddwyr cyfryngau wedi dod yn gynhyrchwyr bellach sy'n 'siarad yn ôl' â'r cyfryngau mewn amrywiol ffyrdd, yn ogystal â chreu a rhannu cynnwys gyda'i gilydd.

ATODIAD B

UG Uned 2: Creu Cynhyrchiad y Cyfryngau Cynllun Marcio

Canllawiau ar Ddefnyddio'r Gridiau Asesu

- Mae ymgeiswyr yn ymateb i friff â pharamedrau penodol y dylid glynu atynt. Mae manylion am y rhain ochr yn ochr â phob briff.
- Dylid penderfynu'r band priodol ar gyfer pob rhan o'r amcan asesu drwy bennu pa ddisgrifyddion perfformiad sy'n adlewyrchu perfformiad yr ymgeisydd orau.
- Yna dylid penderfynu ar y marc priodol drwy bennu **i ba raddau** mae'r ymgeisydd **wedi bodloni'r meini prawf yn y band perthnasol** – wedi bodloni'n **llwyr** (rhan uchaf y band), wedi bodloni **rhan fwyaf** (rhan ganol y band), bodloni **ychydig** (rhan isaf y band).
- Gall cyfanswm y marciau ar gyfer pob colofn adlewyrchu perfformiad ar fandiau gwahanol ar draws rhannau gwahanol o'r amcan asesu. Er enghraifft, gall ymgeiswyr gyflawni band 4 ar gyfer colofn 1 a band 5 ar gyfer colofn 2.
- Dylid nodi bod y bandiau wedi'u llunio i gynorthwyo'r broses farcio trwy nodi lefelau unigol o gyflawniad ac nad ydynt yn cyfateb i ffiniau gradd.
- Lle mae myfyrwyr (sy'n gweithio mewn parau) wedi cyflwyno cynnyrch ychwanegol, dylid defnyddio dull 'ffit orau' gyda'r prif gynnyrch yn cael blaenoriaeth wrth roi band
- Ni ddylid dyfarnu marciau uwch na band 1 i ymgeiswyr nad ydynt yn defnyddio recordiad, delweddau neu destun gwreiddiol yn y cynhyrchiad.
- Dylid dyfarnu sero marc i ymgeiswyr nad ydynt yn cyflwyno cynhyrchiad.
- Efallai y bydd gwaith sy'n bodloni meini prawf bandiau 1 a 2 o dan baramedrau'r briff gosod o ran gofynion lleiaf.
- Nid oes cosb am waith sydd yn llai na'r terfynau amser a hyd a nodwyd, gan ei fod yn debygol o fod yn hunan-gosbi.
- Os yw cynhyrchiad clyweledol yn fwy na'r terfyn uchaf a nodwyd yn y briff, ni ddylai'r athro/aseswr farcio'r gwaith ychwanegol a gyflwynwyd y tu hwnt i'r terfyn hwn, gan mai am y gwaith sydd yn y terfynau amser a hyd a nodwyd yn unig y gellir gwobrwyo ymgeiswyr.
- Os yw cynhyrchiad print neu gynhyrchiad ar-lein yn fwy na'r nifer mwyaf o dudalennau a nodwyd yn y briff, dylai'r athro/aseswr farcio'r holl waith a gyflwynwyd ac yna rhoi credyd am y tudalennau gorau hyd at y mwyafrif o dudalennau a nodwyd, gan mai am waith sy'n syrthio o fewn y cyfyngiadau uchaf o ran hyd y gellir rhoi credyd yn unig.
- Os yw cynhyrchiad yn fwy na'r amser neu'r hyd a nodwyd yn y briff, gellir rhoi credyd iddo o hyd am fodloni holl ofynion y briff ac felly derbyn marciau yng ngholofn 3, band 5, cyhyd â bod y meini prawf eraill ar gyfer y golofn a'r band hynny wedi'u bodloni yn y gwaith sy'n syrthio o fewn yr amser neu'r hyd a nodwyd.

Ymchwil a Chynllunio		
AA3 (10%): Ymchwilio a chreu cynhyrchion y cyfryngau ar gyfer cynulleidfa arfaethedig, gan ddefnyddio gwybodaeth a dealltwriaeth am gysyniadau allweddol astudio'r cyfryngau		
Band	Ymchwilio cynhyrchion y cyfryngau ar gyfer cynulleidfa arfaethedig, gan ddefnyddio gwybodaeth a dealltwriaeth am gysyniadau allweddol astudio'r cyfryngau.	Datblygu cynhyrchion y cyfryngau ar gyfer cynulleidfa arfaethedig, gan ddefnyddio gwybodaeth a dealltwriaeth am gysyniadau allweddol astudio'r cyfryngau.
5	9-10 marc - Gallu ardderchog i ymchwilio i gynhyrchion y cyfryngau ar gyfer cynulleidfa arfaethedig. - Mae'r ymchwil yn hynod berthnasol a phriodol. - Defnydd ardderchog o wybodaeth a dealltwriaeth am genre, cynrychioliad a chynulleidfa.	9-10 marc - Gallu ardderchog i gynllunio cynhyrchion y cyfryngau ar gyfer cynulleidfa arfaethedig. - Mae cynllunio yn hynod berthnasol a phriodol. - Defnydd ardderchog o wybodaeth a dealltwriaeth am genre, cynrychioliad a chynulleidfa
4	7-8 marc - Gallu da i ymchwilio i gynhyrchion y cyfryngau ar gyfer cynulleidfa arfaethedig. - Mae'r ymchwil yn berthnasol a phriodol. - Defnyddio gwybodaeth a dealltwriaeth am genre, cynrychioliad a chynulleidfa yn dda.	7-8 marc - Gallu da i gynllunio cynhyrchion y cyfryngau ar gyfer cynulleidfa arfaethedig. - Mae cynllunio'n berthnasol a phriodol. - Defnyddio gwybodaeth a dealltwriaeth am genre, cynrychioliad a chynulleidfa yn dda.
3	5-6 marc - Gallu boddhaol i ymchwilio i gynhyrchion y cyfryngau ar gyfer cynulleidfa arfaethedig. - Mae'r rhan fwyaf o'r ymchwil yn berthnasol a phriodol. - Defnydd boddhaol o wybodaeth a dealltwriaeth am genre, cynrychioliad a chynulleidfa.	5-6 marc - Gallu boddhaol i gynllunio cynhyrchion y cyfryngau ar gyfer cynulleidfa arfaethedig. - Mae'r rhan fwyaf o'r cynllunio yn berthnasol a phriodol. - Defnydd boddhaol o wybodaeth a dealltwriaeth am genre, cynrychioliad a chynulleidfa.
2	3-4 marc - Gallu sylfaenol i ymchwilio i gynhyrchion y cyfryngau i gynulleidfa arfaethedig, ond mewn ffordd anghyson. - Mae'r ymchwil yn rhannol berthnasol a phriodol. - Rhywfaint o ddefnydd o wybodaeth a dealltwriaeth am genre, cynrychioliad a chynulleidfa, ond mae hyn yn gyfyngedig ac yn anghyson.	3-4 marc - Gallu sylfaenol i gynllunio cynhyrchion y cyfryngau i gynulleidfa arfaethedig, ond mewn ffordd anghyson. - Mae cynllunio'n rhannol berthnasol a phriodol. - Rhywfaint o ddefnydd o wybodaeth a dealltwriaeth am genre, cynrychioliad a chynulleidfa, ond mae hyn yn gyfyngedig ac yn anghyson.

1	1-2 marc - Gallu cyfyngedig i ymchwilio i gynhyrchion y cyfryngau ar gyfer cynulleidfa arfaethedig. - Mae perthnasedd ymchwilio'n gyfyngedig a gallai fod yn anghyflawn. - Defnydd cyfyngedig o wybodaeth a dealltwriaeth am genre, cynrychioliad a chynulledifa.	1-2 marc - Gallu cyfyngedig i gynllunio cynhyrchion y cyfryngau ar gyfer cynulleidfa arfaethedig. - Mae perthnasedd cynllunio'n gyfyngedig a gallai fod yn anghyflawn. - Defnydd cyfyngedig o wybodaeth a dealltwriaeth am genre, cynrychioliad a chynulledifa.
	0 marc Nid yw'r ymchwil yn haeddu credyd.	0 marc Nid yw'r cynllunio yn haeddu credyd.

Dylid defnyddio'r grid marcio cyffredinol hwn ar y cyd â'r cynnwys dangosol ar gyfer y brif a'r opsiwn priodol isod.

Cynhyrchiad			
AA3 (25%): Creu cynhyrchion y cyfryngau ar gyfer cynulleidfa arfaethedig, gan gymhwyso gwybodaeth a dealltwriaeth am gysyniadau allweddol astudio'r cyfryngau.			
Band	Creu cynhyrchiad y cyfryngau i gynulleidfa arfaethedig, gan gymhwyso gwybodaeth a dealltwriaeth o iaith y cyfryngau.	Creu cynhyrchiad y cyfryngau i gynulleidfa arfaethedig, gan gymhwyso gwybodaeth a dealltwriaeth o gynrychioliad.	Creu cynhyrchiad y cyfryngau sy'n bodloni gofynion y briff a osodwyd, gan gynnwys addasrwydd ar gyfer y ffurf, genre, cyd-destun diwydiant a chynulleidfa darged o ddewis
5	17-20 marc - Mae'r cynhyrchiad y cyfryngau yn cymhwyso gwybodaeth a dealltwriaeth o iaith y cyfryngau mewn ffordd hyfedr, cyffredinol rhugl a chyson ardderchog. - Mae confensiynau'r genre neu'r ffurf yn cael eu defnyddio mewn ffordd hynod briodol a llawn dychmyg. - Sgiliau technegol a chreadigrwydd ardderchog.	13-15 marc - Mae'r cynhyrchiad y cyfryngau yn cymhwyso gwybodaeth a dealltwriaeth o gynrychioliad mewn ffordd hyfedr, cyffredinol rhugl a chyson ardderchog. - Mae cynrychioliadau o unigolion, grwpiau a materion/digwyddiadau (fel sy'n briodol) yn cymhwyso ymwybyddiaeth wych a defnydd effeithiol o dechnegau i'w cyfleu.	13-15 marc - Gwireddu'r briff yn ardderchog gan ddefnyddio confensiynau perthnasol sy'n defnyddio'r ffurfiau, genre a chyd-destun o ddewis - Gwireddu'r briff yn ardderchog, ac mae'n debygol o ddenu sylw a gosod y gynulleidfa drwy ddull cyfarch hynod briodol - Mae'r cynnyrch/cynhyrchion yn rhoi sylw i'r holl ofynion a osodwyd yn y briff
4	13-16 marc - Mae'r cynhyrchiad y cyfryngau yn cymhwyso gwybodaeth a dealltwriaeth o iaith y cyfryngau mewn ffordd dda a rhesymol gyson. - Mae confensiynau'r genre neu'r ffurf yn cael eu defnyddio mewn ffordd briodol a chyson. - Sgiliau technegol a chreadigrwydd da.	10-12 marc - Mae'r cynhyrchiad y cyfryngau yn arddangos gwybodaeth a dealltwriaeth o gynrychioliad mewn ffordd sicr a rhesymol gyson. - Mae cynrychioliadau o unigolion, grwpiau a materion/digwyddiadau (fel sy'n briodol) yn dangos ymwybyddiaeth dda o faterion cynrychioliad, gan ddefnyddio technegau cyfarwydd i'w cyfleu.	10-12 marc - Gwireddu'r briff yn dda gan ddefnyddio confensiynau perthnasol i'r ffurfiau, genre a chyd-destun o ddewis yn y ffordd fwyaf cyson - Gwireddu'r briff yn dda, ac mae'n debygol o ddenu sylw a gosod y gynulleidfa drwy ddull cyfarch priodol - Mae'r cynnyrch/cynhyrchion yn rhoi sylw i'r holl ofynion a osodwyd yn y briff

3	9-12 marc - Mae'r cynhyrchiad y cyfryngau yn defnyddio gwybodaeth a dealltwriaeth o iaith y cyfryngau mewn ffordd foddhaol. - Mae confensiynau'r genre neu'r ffurf yn cael eu defnyddio mewn ffordd briodol yn gyffredinol. - Sgiliau technegol a chreadigrwydd boddhaol.	7-9 marc - Mae'r cynhyrchiad y cyfryngau yn defnyddio gwybodaeth a dealltwriaeth o gynrychioliad mewn ffordd foddhaol. - Mae cynrychioliadau o unigolion, grwpiau a materion/digwyddiadau (fel sy'n briodol) yn dangos ymwybyddiaeth foddhaol o faterion cynrychioliad, gan ddefnyddio technegau cyfarwydd i'w cyfleu.	7-9 marc - Gwireddu'r briff yn foddhaol gan ddefnyddio confensiynau perthnasol i'r ffurfiau, genre a chyddestun o ddewis mewn ffordd resymol gyson - Gwireddu'r briff yn foddhaol, ac mae'n debygol o ddenu sylw a gosod y gynulleidfa drwy ddull cyfarch cyffredinol priodol - Mae'r cynnyrch/cynhyrchion yn rhoi sylw i'r rhan fwyaf o ofynion a osodwyd yn y briff
